

YR URDD YN DATHLU CANMLWYDDIANT

Ar ddydd Mawrth, 25ain Ionawr 2022 bu i gefnogwyr Urdd Gobaith Cymru lwyddo i dorri dwy record byd fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant y Mudiad.

Dechreuodd y dathliadau gyda dros 95,000 o blant ac oedolion o bob cwr o Gymru a thu hwnt yn dod ynghyd i ddathlu'r pen-blwydd arbennig drwy ymuno â pharti rhithiol ar Zoom.

Cynhaliwyd parti mwyaf yn hanes y Mudiad, a ddarlledwyd ar BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales, yng nghwmni cyflwynwyr Stwnsh Sadwrn, Mistar Urdd a Mei Gwynedd ac ysgolion o bob cwr o Gymru.

Yna i goroni'r cyfan, llwyddodd cefnogwyr yr Urdd i dorri record byd drwy uwchlwytho 1,176 o fideos ohonynt yn canu'r un gân, sef 'Hei Mistar Urdd' i Twitter a thros 800 o fideos i Facebook.

Uchafbwynt arall y diwrnod oedd y cannoedd o gyfarchion pen-blwydd hapus a dderbyniodd yr Urdd gan ysgolion, enwogion, dylanwadwyr a gwleidyddion, gyda sawl un yn diolch i'r Mudiad am y cyfleoedd unigryw dros y blyneddau.



Ysgol Griffith Jones

Dosbarth Non yn dathlu pen-blwydd yr Urdd yn 100 oed



Ysgol Bro
Brynach

Dathlu pen-blwydd yr Urdd yn 100 oed



Rhai o ddisgyblion Ysgol Bancyfelin
yn dathlu Pen-blwydd Mr Urdd



Ysgol Brynconin

Dosbarth Rhuddem yn dathlu Pen-blwydd Mr Urdd

Y CARDI BACH

Golygydd:	Rhoswen Llewellyn 01994 448283
Cadeirydd a Dosbarthwr Is-gadeirydd:	Eurfyl Lewis 01994 419495 Iola Wyn 07870 100831
Ysgrifennydd:	Beti Wyn James 01994 230966
Trysorydd, Ffotograffydd, Dosbarthwr drwy'r post a Hysbysebion:	Roy Llewellyn 01994 448283
Trysorydd y Clwb '200':	Rhian White 01994 231338
Cysodwyr:	Wyn a Meirwen Evans 01994 448447
Cystadleuaeth	John Arfon Jones 01994 240536
Cornel y Dysgwyr:	Albie Abbott 01239 831641
Tudalen y Plant: Llewyrch i'm Llwybr:	Llinos Mair Thomas
Cornel Coginio:	Winnie James 01239 831754
Cornel Llên:	Nansi Evans 01994 448392 Rhoswen Llewellyn 01994 448283
Cornel Garddio:	John Davies 01994 240059


Newyddion, Lluniau, Erthyglau
a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
Cwmfelin Mynach, Hendygywn-ar-
Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
o angenrheidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn a
gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG



Colofn y Mis

gan Iola Wyn, San Cler

Ar Chwefror 13eg, 1962, traddododd Saunders Lewis, yr ysgolhaig, dramodydd, gwleidydd a bardd, ddarlith flynyddol y BBC. Tynged Yr Iaith oedd y testun, a brawychodd y genedl wrth awgrymu y gallai'r Gymraeg farw ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain.

Defnyddiodd enghreifftiau o bobl bob dydd yn gwneud safiad dros yr iaith Gymraeg, gydag Eileen a Trefor Beasley o Langennech yn eu plith, wedi iddyn nhw wrthod talu bil treth am 8 mlynedd am fod y Cyngor Lleol yn gwrthod cyfathrebu'n swyddogol yn yr iaith Gymraeg.

Union 60 mlynedd yn ddiweddarach, mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi y bydd gwersi Gymraeg ar gael am ddim ar gyfer y rhai rhwng 16 a 25 oed a gweithwyr ym maes addysg. Roedd hwn yn un o'r ymrwymadau yn sgil y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru â Phlaid Cymru. Daw'r cyhoeddiad hwn wrth gwrs, wrth i ni aros am gasgliadau'r Cyfrifiad a fydd yn dangos a ydy nifer y siaradwyr Gymraeg wedi cynyddu, gostwng neu aros yn eu hunfan yn ystod y degawd diwethaf.

Mae gwersi Gymraeg am ddim i'w groesawu wrth reswm. Wedi'r cwbl dyma'r ystod oedran sy'n gwbl allweddol er mwyn sicrhau dilyniant a chryfhau'r Gymraeg ym mhob rhan o Gymru. Mae Gweinidog Y gymraeg Ac Addysg, Jeremy Miles wedi pwysleisio bod yr iaith Gymraeg yn perthyn i bawb. Ond yr her ydy darbwyllo pawb bod yr iaith yn perthyn iddyn nhw, a bod modd i bobl ifanc ei defnyddio hi ym mhob agwedd o'u bywydau. Oherwydd dyw hynny ddim yn wir.

Felly yn y categori oedran hwn, mae nifer fawr o bobl ifanc yn dechrau gyrru. Ac eto, er bod modd sefyll yr arholiad theori drwy'r Gymraeg, does dim deunyddiau adolygu ar gael yn y Gymraeg i'w paratoi ar gyfer yr arholiad hwnnw. O'n profiad ni yn bersonol fel teulu, mae cyrraedd yr arholiad yn Hwlfordd wedi bod yn drafferthus. Er i bob ffurflen gael ei llenwi yn datgan yn glir y dymuniad i sefyll yr arholiad drwy'r Gymraeg, doedd y neges honno ddim wedi cyrraedd y swyddog ar ddyletswydd, ac felly arweiniodd hynny at oedi cyn sefyll yr arholiad a phob ymgeisydd arall yn yr ystafell yn bwrw ati ar unwaith.

Felly mae hynny'n rhoi neges glir i bob person ifanc bod angen iddo ddal ei dir os am fynnu ei hawl i gael gwasanaeth Gymraeg - union fel ag y gwnaeth teulu'r Beasley yn y ganrif ddiwethaf. Ac wrth gwrs, gyda'r mwyafrif yn profi nerfau cyn unrhyw arholiad, mae'r sefyllfa bresennol yn gwbl anheg ar y bobl ifanc hynny.

Her arall ydy darbwyllo pobl ifanc fod cymdeithasu drwy'r Gymraeg yn rhywbeth cwbl naturiol, union fel ag y mae e oddi mewn i'r ystafell ddosbarth. Mae honno'n glamp o her. Ar hyn o bryd, dyw mwyafrif llethol y disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Gymraeg ddim yn siarad Gymraeg ar iard yr ysgol. Ac mae angen bod yn onest am hynny, a chydabod bod hynny'n wir ym mhob ysgol uwchradd. Nid methiant yw hynny ar ran unrhyw athro nac athrawes. Mae'r cyfrifoldeb hwnnw, i annog pobl i siarad y Gymraeg yn gwbl naturiol yn gymdeithasol yn perthyn i bawb.

Ac i'r lleiafrif sydd yn ei siarad hi gyda'u ffrindiau, mae'n frwydr ddyddiol wrth fynnu eu hawliau, i ofyn am ffurflenni Cymraeg sydd wedi eu cuddio yng nghefn y storfa, i eistedd ar eu pen eu hunain yn aros am feddalwedd Gymraeg mewn arholiad gyrru.

Ac yn Sir Gâr, y sir gyda'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn y cyfrifiad diwethaf, mae pobl ifanc yn cael eu gwahardd rhag mynd i glwb nos yng Nhaerfyrddin am eu bod yn arddangos y Ddraig Goch ar eu trwydded yrru yn

GOHEBWYR LLEOL

<u>ALMA:</u>	Margaret Evans 01994 230761
<u>BANCYFELIN:</u>	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
<u>BLAENWAUN:</u>	Tegwen James 01994 448223
<u>CAPEL MORIAH</u> (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com
<u>CEFNYPANT:</u>	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
<u>CLUNDERWEN:</u>	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
<u>CWMBACH:</u>	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
<u>CWM MILES:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>CWMFELIN</u>	Nansi Evans
<u>MYNACH:</u>	01994 448392
<u>EFAILWEN:</u>	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
<u>GELLIWEN:</u>	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
<u>HENDY-GWYN:</u>	Heather Jenkins 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.com Y Parch. Guto Llywelyn (Newyddion Tabernacl) 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
<u>HENLLAN -</u> <u>FALLTEG:</u>	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
<u>LOGIN:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>LLANBOIDY:</u>	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwdimwl.com
<u>LLANDYSILIO:</u>	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
<u>LLANGLYDWEN:</u>	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
<u>LLANGYNIN:</u>	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlemail.com
<u>MEIDRIM:</u>	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
<u>PENYBONT:</u> <u>PWLLTRAP:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>RHYDYCEISIAID:</u>	Doreen Adams 01994 240581
<u>RHYDWILYM:</u>	Eilir Davies 01994 419649 eilirtrhos@btinternet.com
<u>SAN CLER:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>TRELECH:</u>	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

hytrach na baner yr Undeb. A phan fo'r gwaharddiad hwnnw'n digwydd ar Sgwâr Caerfyrddin, o bob lle, mae hynny'n brawf ein bod ni'n byw mewn gwlad gymhleth yn gymdeithasol a seicolegol.

Wedi morio canu Pleidiol Wyf I'm Gwlad ar brynhawn Sadwrn, prin yw'r angerdd tuag at y wlad honno erbyn iddi dywyllu, wrth i nifer gael cerydd am wrthod arddangos baner GB er mwyn cael mynediad i glwb nos. Ac mae'r Gymraeg yn ceisio dal ei thir yng nghanol y cymhlethdod hwnnw, a phobl ifanc yn ceisio dod o hyd i'r pen a'r gynffon yng nghanol negeseuon gwrthgyferbyniol am eu gwlad, eu cenedl a'u hiaith.

LLEWYRCH I'M LLWYBR (N.E.)

Mae gobaith bod y Gwanwyn gerllaw er bod y gaeaf wedi bod yn anarferol o gynnwys.

Mae angen cefnogaeth ymarferol ac ysbrydol ar bawb wedi bron dwy flynedd o fywyd cyfyng â'r pandemig. Covid 19, yn rheoli ein bywydau. Braf yw teimlo fod pethau yn gwella – beth ddaw o leni – ni wyddom ond diolch am waith gwyddonwyr sydd wedi creu'r 'brechlyn' ac sydd wedi achub bywydau.

Hefyd, mae'n galonogol fod y capeli wedi agor eu drysau unwaith eto, er ni fu crefydd heb ei gydnabod; cafwyd gwasanaethau rheolaidd trwy gyfrwng y dechnoleg fodern a diolch i'r gweinidogion a phawb fu'n cyfrannu at y gwaith pwysig hwn. Nid yw crefydd wedi diffodd a chynhelir ein ffydd.

Gwelwyd llawer o garedigrwydd hyd a lled y wlad – pobl yn helpu'r henoed a'r anghenus trwy ddosbarthu bwyd ac yn y blaen. Mae argyfwng yn aml yn dod a'r gorau allan o bobl.

Gweddian am flywyddyn well drwy'r byd gyda gobaith yn ein calon.

Yn Efengyl Ioan, dywed Iesu "Myfi yw'r ffordd". Ef hefyd yw'r bont sydd yn ein huno gyda'n gilydd. Mae dyletswydd arnom i gyd i wneud ein rhan trwy gynorthwyo pobl anghenus ein byd. Mae geiriau'r emyn canlynol yn dweud y cyfan:-

Aed golau'r Groes a'r nefol ddydd
Drwy wledydd daear lydan,
A phrofer rhin Efengyl wiw
Yn allu Duw ei hunan;
Doed holl genhedloedd daear las
I gyd-ddyrchafu baner gras
A dymchwel teyrnas Satan.

Penblwydd hapus

Penblwydd hapus i Eurfyl Lewis, Cadeirydd Y Cardi Bach a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed ar Fawrth 8fed. Dymuniadau gorau oddi wrth holl ddarllenwyr Y Cardi Bach.



Tu ôl i'r wên, nid dwli - yn unig
Sydd yno i'w hoffi.
Cei heddiw weld cyhoeddi
Chwedeg dy weithgarwch di.

Wyn Owens

CYSTADLEUAETH gan John Arfon

Erbyn hyn mae golygon fod pethau'n gwella gyda'r Cofid melltgedig sydd wedi ein plagio am y ddwy flynedd ddiwethaf hyn. Gobeithiaf yn wir y daw rhyw normalrwydd i fywyd pawb erbyn canol yr Haf. Rwy'n falch fod ychydig mwy wedi cystadlu ar bosau y Nadolig na chynt. Dyma'r atebion:-

A(1)

Ar Draws:- 1. Degwm, 3. Baw, 4. Saff, 6. ? ? ?, 7. Dol, 9. Afu, 10. Ceffyl.

I Lawr:- 1. Duw, 2. Mis, 3. Brawd, 5. Ffynnu, 8. Lwc, 9. Abl.

Wedi defnyddio y llythrennau yn y blychau llwyd a'u rhoi i mewn, mewn trefn, caech yr ateb **ABERGWAUN**.

2) Atebion "Canfod y Lle"

1. Triciau, 2. Crafanc, 3. Prysuero, 4. Hagrach, 5. Eglwys, 6. Dieflig, 7. Gwyntog, 8. Ystafell.

Yr ateb yn y blychau llwyd oedd **CASGWENT**.

B(1)

Atebion y "Cyplau"

Dyma'r 6 gair chwe-llythren y dylech fod wedi eu cael.

Cariad, Eiriol, Gwrido, Herian, Muriau, Tirion.

Yn anffodus anghofiais ddweud nad oeddwn yn derbyn enwau personol, felly gwnaeth llawer iawn ohonoch roi Eirian yn lle eiriol, a heriol yn lle herian. Felly, derbyniais yr atebion am mai fy mai oedd ef, ac aeth enw pawb i'r het.

B(2)

Atebion y croesair "Llafariaid ar Goll"

Ar Draws.

1. Gwarantu, 5. Dant, 9. Sgets, 10. Parablu, 11. Drws, 12. Cynigion, 14. Ysgwyd, 15. Campus, 18. Trydanwr, 20. Hynt, 23. Mwstard, 24. Eleni, 25. Ofni, 26. Bonclust.

I Lawr.

1. Gosod, 2. Anenwog, 3. Awst, 4. Twpsyn, 6. Asbri, 7. Truenus, 8. Preifat, 13. Cyfalaf, 14. Ystumio, 16. Pryderu, 17. Mwydro, 19. Ymson, 21. Trist, 22. Celc.

C(1) Atebion y Chwilrif Mawr

6	1	9	4	7	8	3	12	11	10	5	2
2	12	3	7	11	5	10	9	8	1	4	6
11	5	10	8	2	4	1	6	3	9	12	7
10	11	5	2	8	1	6	3	12	7	9	4
7	6	1	9	4	12	11	2	10	5	3	8
8	3	4	12	10	9	5	7	1	2	6	11
1	10	7	5	3	2	12	4	6	8	11	9
4	9	12	11	6	7	8	10	2	3	1	5
3	8	2	6	1	11	9	5	4	12	7	10
12	4	8	10	5	6	7	1	9	11	2	3
9	7	6	3	12	10	2	11	5	4	8	1
5	2	11	1	9	3	4	8	7	6	10	12

C(2) Atebion y chwilrif llythrennau

B	N	C	A	E	O	L	W	Y
Y	A	O	W	L	N	C	B	E
L	W	E	Y	C	B	N	O	A
W	Y	N	C	B	A	E	L	O
C	B	L	E	O	Y	A	N	W
E	O	A	N	W	L	Y	C	B
N	E	B	O	Y	C	W	A	L
A	L	W	B	N	E	O	Y	C
O	C	Y	L	A	W	B	E	N

Wrth ddarllen i lawr o'r gornel chwith i'r dde, dylech gael yr ateb Bae Colwyn.

Dyma enillwyr y cystadlaethau:-

A(1 a 2)

Y cyntaf allan o'r het ac yn ennill y £5 oedd Huw Davies, Glynderi, Pwlltrap gyda Olwen Gibbon, Heol Llysonnen yn ail ac yn ennill llyfr.

B(1a2)

Y cyntaf allan o'r het ac a gafodd yr atebion cywir fel yr oeddwn ei heisiau oedd John Lewis, Meidrim yn ennill y

WYN DAVIES a'i FRODYR

ADEILADWYR

Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Ffôn: 01437 563300



IFAN DAVIES

Saer Coed



Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469

W. J. KENNETH DAVIES

ei Feibion a'i Ferch

SEIRI COED

a

THREFNWYR ANGLADDAU

Blaenwern, Clunderwen

Ffôn: 01437 563319




wobr o £5 , gyda'r ail wobr o lyfr yn mynd i Eric Hughes, Pwlltrap.

C (1a2)

Llyfrau Chwilverfau yw'r gwobrau i'r cyntaf a'r ail yn y gystadleuaeth hon gyda Rita Jones, Pwlltrap yn gyntaf allan o'r het a Gwlithyn Jones, Dryslwyn yn ail.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd ac i'r canlynol hefyd am gystadlu:- Jane Evans, Tegwen James, Blaenwaun; Peter Crowdie, San Cler; Phyllis Hughes, Nesta Rees, Pwlltrap a Havina Jones, Meidrim.

Dyma atebion y Cwrosu a Chwilverf Rhifyn y Nadolig

X	O	O	X	X	O
O	X	X	O	X	O
X	O	O	X	O	X
X	O	X	O	X	O
O	X	O	X	O	X
O	X	X	O	O	X

7	9	4	6	2	8	5	3	1
3	8	2	9	5	1	4	6	7
5	1	6	3	4	7	2	9	8
6	2	1	8	7	4	9	5	3
4	3	8	5	9	6	1	7	2
3	5	7	1	3	2	6	8	4
1	4	9	7	6	3	8	2	5
2	6	3	4	8	5	7	1	9
8	7	5	2	1	9	3	4	6

Dyma ddau arall i'ch diddori y mis hwn

O			X		O
	O			O	
		X	O		
X					X
X					X
	X	O		X	

			1	8		6		
	5			2				
						8	5	1
			6	7			4	
	9							8
	2	8		9		7		
3								
4	6				2		1	
				6	4		9	2

Mae dau ran i gystadleuaeth y mis hwn. Bydd rhaid ateb y ddau ran yn gywir os am y siawns i ennill y gwobrau sef £5 i'r cyntaf allan o'r het a llyfr i'r ail.

(a)

Atebwch y deuddeg cwestiwn isod, yna cymerwch lythyren gyntaf pob ateb ac ail-drefnwch hwy i roi enw Cymro enwog.

1. Rhown hwn ar droed yn Seland Newydd.
2. Amser Santa.
3. Llyfr o fapiau.
4. Aderyn a welir ar gerdyn Nadolig.
5. Enw'r lle yn Awstria lle cynhelir Drama'r Dioddefaint.
6. Williams y naturiaethwr.
7. Gwraig y Brenin Arthur.
8. Enw cyntaf awdur Straeon y Pentan.
9. Rhaeadr enwog rhwng Canada a'r U D A.
10. Cylchgrawn dychanol ar werth yn yr Eisteddfod.
11. Bardd y Tangnefeddwyr.
12. Lle i drin cleifion.

(b)

Beth yw'r rhif sydd i fod yn lle'r marc cwestiwn ?

30		35	

Anfonwch eich atebion gyda'ch enw, cyfeiriad a'ch rhif ffôn erbyn Ebrill 1af 2022 i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn ar Daf, SA34 0AX os gwelwch yn dda. Cofiwch fod yn rhaid ichwi fod yn aelod o'r Clwb 200 os am y siawns o ennill gwobr, felly gwnewch yn siwr eich bod wedi ymaelodi am eleni.

Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk


Annwyl ddarllenwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n weddol iach ac yn ddiogel. Diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi â'r clwb a braf yw cael croesawu aelodau newydd i'n plith eleni eto. Serch hyn, gofynnaf yn garedig i'r ffyddloniaid hefyd i ymaelodi mor gynted ag y bo modd, er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r clwb ac yn hynny o beth, cefnogi'n papur bro. Mae dod yn aelod yn rhwydd - danfonwch siec i mi am £10 gyda'ch enw a chyfeiriad, neu allwch dalu drwy system BACS y banc. Y manylion sydd angen arnoch yw 40-46-27 a 91020765 a'ch enw chi fel 'reference'. Os ydych am dalu fesul archeb banc, cysylltwch â mi am ffurflen.

Drwy fod yn aelod, bydd gennych gyfle i ennill gwobr ariannol yn ein raffl misol, yn ogystal â chystadlu yng nghystadlaethau John Arfon Jones.

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel,

Rhian



Watson Jones gan Guy Manning

O ddiddordeb gobeithio !!!!!

gan John Arfon

Wrth sylwi ar fy enw y dydd o'r blaen, synnais o weld cymaint o Gymry enwog sydd yn berchen yr un lythyren sydd ar y dechrau yn eu henwau cyntaf ac hefyd ei cyfenwau.

Dyma ddeuddeg arall ohonynt, bydd deuddeg arall gwahanol y mis nesaf.

Chris Coleman - Peldroediwr • Craig Cooke - Beiciwr
Dominic Dale - Snwcer • Sarah Siddons - Actores
Endaf Emlyn - Canwr • Elfyn Evans - Ralio Ceir
Evan Evans - Dramodydd • Jeff Jones - Cricedwr
Mihangel Morgan - Awdures • Phil Price - Golffwr

Dydd Gŵyl Dewi hapus i bawb



Alaw Evans yn barod i ddathlu dydd ein nawddsant ar Fawrth 1af

Cyfraniadau

Ambrose a Jean Lewis, Meidrim	£50
Roy Saer, Caerdydd	£50
Winnie James Phillips, Crymych	£20
Rhodri Eckley, Llandudno	£20
Teulu Jenkins, Rhosfach, Efailwen	£10
Lon Gibbin, Maesmeini, Efailwen	£5

Diolch yn fawr



COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygwyn
01994 240254

www.llewelyndavies.co.uk



ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

CORNEL Y DYSGWYR *gan Albie Abbot*

Shwmae - mae'n syndod i mi sylwi fy mod wedi bod yn sgwennu'r darn ma am ugain mlynedd erbyn hyn. Mae'n rhaid dweud mod i wedi bod yn hynod o falch i fod yn rhan o'r cylchgrawn arbennig hwn.

Dyma rywbeth i chi y mis hwn. *Pob lwc Albie*

SNORCIO CORS (**Cors = bog, marsh.)

Mae nofio a snorcio ar hyd cors yn fwy poblogaidderioed. Ers sawl blwyddyn, mae pobl yn dod i ardal Llanwrtyd i edrychgystadleuwyr yn snorcio mewn cors fwdlyd. Erbyn heddiw, mae'r achlysur yn enwog mewn llawer o(gwlad), a'r cystadleuwyr yn dod o bedwarbyd.

.....y record am nofio'r gors ei gosod gan ddyn o Donyrefail bedair blynedd yn ôl ond mae'r rhano'r nofwyr yn dod yno i gael ychydig o sbri. Y peth rhyfedd yw.....'r un cystadleuwyr sy'n dod flwyddyn ar ôl blwyddyn, ery gors yn fudr ac yn oer. Erbyn hynneb yn amau nad yw'r digwyddiad (blwyddyn) hwn yn rhan hanfodol o'r economi leol; yn wir, 'snorcio cors' yw atyniad twristaidd(pwysig) yr ardal.

Daw pobl o bob oedran a chefnidir yno i gystadlu, rhainhw dros eu trigain.....(Clywed) cwmni o Siapan am y digwyddiad rywsut a dod yno i ffilmio llynedd. Doedden nhw erioed wedi gweld ybeth, medden nhw. Mae'n bosibl y bydd cymaintchant o bobl yn nofio' gors eleni, ynâ'r cannoedd o ymwelwyr a chriwiau teledu. Pwy aefallai y bydd 'snorcio cors' yn rhan o'r Gemau Olympaidd yn y dyfodol.

DOD	o hyd i blanhigyn anarferol
ARBENNIG	Yn ôl, planhigyn o wlad dramor oedd e
SEFYLL	ar dy draed !
CYMYRD	gerdyn.
GWRTHDARO	Burhwyng dau gar.
ENW	Dyw'r heddlu ddim wedi eieto.
DIGWYDD	Cafodd ei losgi ar ôlar y tren.
GWELL	Ydy eich coes wedi?
DOD	Dwi ddim yn credue.
SYN	Aeth gwefr odrwy'r dyrfa.
CARCHAR	Gwaeddodd yeto.
GWAITH	Dwi wedi bod ar y cyfandir hanner dwsin o
CYFRAITH	Mae bod yn briod a mwy nag un person ar yr un pryd yny wlad hon.
DIOLCH	Ceisiodd ei berswadio i fod yn
MWYAF	Roedd yo blaid y cynnig.

Mae Albie wedi sôn ei fod wedi cyfrannu i golofn y dysgwyr ers ugain mlynedd. Mae pwyllgor a darllenwyr Y Cardi Bach yn diolch yn fawr iawn i Albie am ei ymroddiad i'r papur bro gan ddymuno y bydd yn parhau i wneud am flynyddoedd eto.

Diolch Albie, a dymuniadau gorau i chi a'r teulu.(Gol.)

Adrian Llewellyn Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concriid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio

Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN

CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎ 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)

GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorrlewin
Hendygywyn ar Daf



Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937

MERCHED Y WAWR



Cangen Beca

Ar ddechrau ein cyfarfod misol, gwnaethom sefyll am funud o dawelwch i gofio am Merlys Davies a fu farw cyn y Nadolig. Yr oedd Merlys yn aelod ffyddlon gyda ni yn Beca. Yr ydym yn cydymdeimlo gyda Glanville, Carol, Peter a'r teulu i gyd yn eu hiraeth au galar.

Ar ôl trafod materion y mudiad a'r gangen gwaneth Eryl George groesawu Ann Morris atom. Gwnaethom fwynhau awr ddifyr iawn yn ei chwmmi hi a'i phriod.

Edrych ar hen ffilmiau diddorol iawn o'r pentre ym Maenclochog a wnaethom. Prynhawn o hel atgofion.

Diolchodd Eryl i'r ddau am brynhawn wrth fodd pawb.

Enillwyd y raffl misol gan Mefin Lewis, a Gloria Gibby wnaeth ennill y botel win a roddwyd gan Petra Davies.

Gorffen yn ôl yr arfer yn mwynhau paned a chlonc.

Clwb Gwawr Merched Hywel

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr yng Nghlwb Rygbi Hendygywn ar nos Fercher 26ain, pan groesawyd Aled Davies, Clunderwen i ddod i siarad. Mae llawer yn ei adnabod fel Aled Babïog a bu yn yr heddlu hyd at ei ymddeoliad rhai blyneddoddd yn ôl. Erbyn hyn, fe'i welir yn dosbarthu prescriptiwn ar ran Ed John, fferylllydd Clunderwen.

Siaradodd Aled am ei brofiad fel rhan o'i waith yn datrys llofruddiaethau Sir Benfro, a'r modd y cafwyd John Cooper ei ddal a'i ddedfrydu o achosi marwolaethau Richard ac Helen Thomas, brawd a chwaer a fu'n byw yn Scoveston Manor, a Peter a Gwenda Dixon, gŵr a gwraig o Rydychen a ddaethpwyd o hyd i'w cyrff ar y llwybr arfordirol ger Little Haven.

Adroddodd am y broses fanwl a chymleth o gasglu tystiolaeth i'w ddedfrydu mewn dyddiau lle roedd technoleg ffforensig yn eitha cyntefig, a'r modd yr agorwyd "cold case review" tra roedd Cooper yn y carchar am fwrgleriaeth i'w gysylltu heb ddim amheuaeth am y llofruddiaethau erchyll.

Siaradodd yn barchus am eu gydweithwyr a'i uwch swyddogion megis Jim Morris a chafwyd ambell stori ddoniol am ei brofiadau yn y "force."

Cafwyd noson ddifyr iawn yn ei gwmmi.

Mae'r Clwb yn cwrdd fel rheol yn cwrdd ar nos Fercher olaf bob mis yng Nghlwb Rygbi Hendygywn. Rydym wedi trefnu nosweithiau amrywiol ar hyd y blyneddoddd megis noson ffilm, helpa drysor, siaradwyr gwadd, crefftiau, casglu sbwriel, mynd am dro ac wrth gwrs mynd allan am fwyd!

Os hoffech ymuno â ni neu am fwy o fanylion, cysylltwch ag un o'r aelodau a welwch yn y llun!



Aled Davies, Clunderwen, y gŵr gwadd yn y Clwb Gwawr

CODI ARIAN I ELUSEN



Peter Lewis o Crymch a drefnodd rediad tractor ar y 1af o Ionawr a chodwyd £795 i Ganolfan 'Oxygen Therapy', Aberteifi.

Peter a Jack Vaughan yn cyflwyno'r arian i Dailwen Vaughan

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid

Cysylltwch â Wyn Davies
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED

Plymio a Gwresogi

07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i GWMNI

SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen

Ffôn: 01437 563217

Cornel Garddio

gan W John Davies, Hendygywyn

Ar ddechrau mis bach mae pridd yr ardd mor sych ac mae'r mwydon llawer mwy dwfn yn y ddaear nag arfer. Yn dilyn hyn felly, mae'r gwahaddod yn taflu mwy o bridd i fyny yn eu hymgyrch i hel eu bwyd, sef y mwydon. Oherwydd hyn, mae'n bosib fydd y lawnt yn suddo rhywfaint yn fwy nac arfer yma ac acw pan fydd yn glawio. Â siarad am lawntiau, mae gen i un tu allan i'r wal ar ochr yr heol. Llynedd, fe benderfynais beidio torri'r porfa ond ei adel i dyfu'n wyllt, ac yn wir, erbyn canol mis Mehefin roedd yn llawn blodau gwyllt lliwgar. Roedd yna lawer iawn o bryfed a gwenyn o bob math yn hel mêl yno un diwrnod. A minnau efallai yn pendroni neu hanner cysgu, clywais sŵn, a wir i chi, roedd 'cymdoges' dda wedi penderfynu rhoi help llaw i mi. Erbyn hyn, mae yna ofyn arnom i adel rhannau o'r lawntiau heb eu torri hyd yr Hydref, er mwyn lleihau llygredd amgylcheddol, ac i helpu fwydo a chynnal bywyd gwyllt. Mae hyn yn hollol dderbyniol, a chredaf, oherwydd Covid mae tipyn llai o lygredd wedi bod eleni. Hefyd, mae'r Gaeaf wedi bod rhywfaint yn oerach na'r cyffredin y blynyddoedd diwethaf ma.

Maent hefyd yn erfyn arnom bawb i blannu coeden, fawr neu fach, i helpu lanhau'r llygredd ac i helpu storio carbon yn ein pridd. Yn wir petai pob gardd yn y wlad yn cynhyrchu rhywfaint o lysiau a pheth bwyd, fe wnai wahaniaeth mawr, ond i fod yn dêg, y llygrwyr mwyaf ddylai arwen, a dangos y ffordd sut i wella'r sefyllfa hyn.

Mae potiau blodau Nadolig llynedd wedi bod braidd yn wael yn gyffredinol â'r rheswm am hyn oedd y tywydd oer gawsom cyn yr Ŵyl. Tra'n teithio i'r siopiau cawsant gryndod neu anwyd ar ôl bod mewn tai gwydr twym. Mae'n bwysig fod rhoi dŵr clear yn "gwd thing" (gair boi lleol) a cadwch lygaid ar dymeredd y dŵr pan yn dyfrio pob amser.

Mae Ionawr yn amser da i ail botio planhigion tŷ hefyd. Mae rhai planhigion grug yn eu blodau mewn gerddi cysgodol, felly cadwch lygad arnynt a rhoddwch glipad ysgafn i'r blodau fel y maent yn gwywo. Mae hyn yn eu cadw'n daclus, ac yn arbed yr hadau ledaeni dros y lle. Os oes gennych dŷ gwydr, mae'n bosib hau nifer o

hadau, sef winwns, letys, a phethau felly er mwyn eu hail blannu allan yn yr ardd nes ymlaen pan fydd tymeredd y pridd wedi cynhesu rhywfaint. Cofiwch, dim ond nifer fechan o hadau sydd eisiau eu defnyddio. Pwyll bia hi pan yn hau hadau, a chadwch y gweddill mewn bocs tun yn ddiddos ac yn sych ond dim mewn gormod o wres. Ofnaf, bydd rhaid bod yn amenyddgar tra'n disgwyl y tywydd i wella, ac yn y cyfamser, cadwch lygaid ar y malwod. Cyn hir byddant yn dod i'r golwg yn llw, ac yn bwyta pobeth gwyrdd a nawr yw'r amser i'w dal. Mae llawn dwrn o halen cystal â dim i'w gwaredu a nes ymlaen pan fyddwch yn paratoi pâm moron a betys, heuwch ddwrned o halen ar y pamau hyn hefyd. Mae hyn yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i'r cnwd terfynol, ac yn enwedig i flas y cynnyrch.



CACEN WLEDIG A CHNAU

Cynhwysion:-

1. 4 owns o fenyn
2. 4 owns o siwgr brown meddal
3. 4 llwy fwrdd o fêl clir
4. 2 wy
5. 4 owns o sultanas
6. 4 owns o fricyll sych wedi eu torri'n fân
7. 1 afal bwyta mawr wedi ei gratio'n fân
8. 8 owns o flawd codi
9. 1 llwy de o sbeis cymysg
10. 2 llwy fwrdd o laeth.

DULL:

Meddalu'r menyng, siwgr a'r mêl a tywallt yr wyau, wedyn y pethau eraill i gyd.

Rhowch mewn tun bara (2 bwys) wedi ei sarnio a'i leinio ar y gwaelod.

Crasu mewn popty, silff ganol. Gwres 325F neu 160C am awr a hanner.

Tywalltwch jam bricyll dros y deisen a'i haddurno â chnau ffrengig a chnau brasil.

Preseli storage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com



Detholiad o anrhegion
Cymraeg a Saesneg
o safon

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
E-bost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawncariad
www.llawncariad.co.uk

PWLL TRAP

Cydymdeimlwn â Ceinwen Bryant, Gors Fach, a'r teulu ar farwolaeth ei merch, Sarah, yn ddiweddar. Cofiw'n arbennig am blant Sarah.

Penblwydd Hapus hwyr i Dave Stewart, Llys-y-gwynt a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ym mis Rhagfyr.

Roedd yn flin gan Bwyllgor y Cardi Bach ddeall nad yw archfarchnad y Co-op yn San Cler yn medru gwerthu Y Cardi Bach bellach. Mae'r Cardi Bach ar werth yn San Cler yn siopau County Stores a Llawn Cariad.

Bethlehem Newydd

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Martha Griffiths, Blaencors. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â'i gŵr, Gerwyn, a'r merched, Marian a Sharon a'u teuluoedd yn eu galar. Cynhaliwyd angladd Martha ym Methlehem Newydd ar Chwefror 1af.

Llongyfarchiadau i Christine a Howard Bevan ar enedigaeth ŵyr, Rory James, bachgen bach i'w mab, Stephen, a Lowri a brawd bach i Oliver. Da yw deall fod Rhonna Thomas-Phillips, Maes-yr-Awel wedi gwella'n dda yn dilyn llawdriniaeth ar ei llygad cyn y Nadolig.

Tŷ Croeso

Mae sawl casgliad yn cymryd lle ar hyn o bryd.

Hen sbectol - gellir eu gadael yn y capel, siop Bancyfelin neu Pethau Olyv.

Mae angen rhai nwyddau ar y Banc Bwyd - mae modd eu gadael yn Co-op a Spar, San Cler.

Wyau Pasg a siocledi erbyn y Pasg ar gyfer y Banc Bwyd a Lloches Gwagedd Caerfyrddin.

Trefn Suliau mis Mawrth

6ed: Gwasaneth Gŵyl Dewi ac Oedfa Gymun - Bethlehem Newydd

13eg: Oedfa dan ofal y Parch. Desmond Davies - Bethlehem Newydd

20fed: Oedfa dan ofal y Gweinidog - Gibeon

27ain: Oedfa dan ofal Mrs. Maria Evans - Bethlehem Newydd

Diolch. Dymuna Margaret Williams, Y Berllan, Pwlltrap gydnabod a diolch i'w pherthnasau a'i ffrindiau am yr holl gyfarchion a dderbynniodd ar achlysur ei phenblwydd arbennig.

SAN CLER

Roedd yn flin gan Bwyllgor y Cardi Bach ddeall nad yw archfarchnad y Co-op yn San Cler yn medru gwerthu Y Cardi Bach bellach, Mae'r Cardi Bach ar werth yn San Cler yn siopau County Stores a Llawn Cariad.

Trist yw gorfod cofnodi nifer o farwolaethau yn gysylltiedig â'r dre yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Bu farw Harcourt John o Lôn Hafren yn 80 oed. Bu Harcourt yn weithgar iawn gyda Eglwys y Santes Fair

Fagdalen a'r Sgowtiaid a, flynyddoedd yn ôl, gyda Chymdeithas Rhieni-Athrawon Ysgol Glasfryn. Cydymdeimlwn gyda'i wraig Ann, a'i blant, Ryan, Debra, Darrell, Dean, Amanda a Dion a'u teuluoedd.

Bu farw Rosemary John o Osborne Terrace. Cydymdeimlwn a'i gŵr, Steve, ei merched, Claire, Stephanie a Phillipa a'u teuluoedd, hefyd a'i chwiorydd Cath ac Avril.

Yn 93 oed, yng Nghartref Dolyfelin, bu farw Glenys Rees, gynt o Arch Villa. Cydymdeimlwn â'i phlant Kevin a Helen a'r teulu oll ar eu colled.

Clywsom, hefyd, am farwolaeth Dalys Elias. Mae nifer yn ei gofio fel gôl-geidwad gwych i dîm pel-droed San Cler yn y 60au a'r 70au.

Mr a Mrs Sion Corn



Dyma lun o Mr a Mrs Sion Corn a fu'n gweithio'n ddiwyd adeg y Nadolig. Bu'r ddau yn diddori plant a henoed yr ardal a thu hwnt, gan godi swm arbennig o **£2070** i LATCH, yr elusen gancr i blant. Buont, hefyd, yn ymweld ag Eglwys y Santes Fair Magdalen yn ogystal â Dechrau Disglair a'r Cylch Meithrin yn Hendygywyn. Cawsant groeso cynnes hefyd yng nghartrefi gofal lleol, Cwmgwili a Phenbre. Yn ogystal, estynnwyd croeso i blant i ymweld â hwy yn eu cartref dros dro yn Trinity House, lle bu cyfle i'r plant dreulio amser arbennig gyda'r ddau gymeriad hoffus. Er bod Mr a Mrs Sion Corn yn gweithio o ddydd i ddydd, fe lwyddon nhw i godi'r holl arian hyn yn eu hamser sbar yn ystod mis Rhagfyr. Ers dechrau y fenter ddeg mlynedd yn ôl, maent, erbyn hyn, wedi codi swm anhygoel o tua £10,000 i LATCH.

Dymuna'r ddau ddiolch o waelod calon i bawb am y croeso twymgalon gawsant ac hefyd am yr holl gyfraniadau hael.

RHYDWILYM

Yn ystod y mis aeth heibio cynhaliwyd oedfaon dan ofal Hefin Wyn a Catrin Isaac Thomas. Diolch iddynt am oedfaon bendithiol iawn.

Oedfaon mis Mawrth

6ed: 2.00 - Y Chwaer Annalyn Davies

20fed: 10.30 - (Cymun) Parch P M Thomas.

Dymunwn wellhad i bawb sydd yn anhwylys ar hyn o bryd. Cofiw'n hefyd am Mona Lewis a Llinos Edwards sydd mewn cartrefi gofal. Pob bendith i bawb.

BLAENWAUN

Rydym fel ardal yn meddwl am Irene Davies, Highlands sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty ym Mhenybont. Gob-eithio yn wir y bydd adref yn fuan.

Pob dymuniad da i John Harries, 3 Heol Shôn, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Da iawn yw clywed ei fod ar wellhad.

Moriah

Diolch i'n gweinidog Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth ar Sul, 13eg Chwefror pan cafwyd oedfa gymun. Hyfryd oedd cael gwasanaeth yn y capel unwaith yn rhagor.

Trefn yr oedfaon am fisoedd Mawrth ac Ebrill:-

Mawrth

6ed. 1.30 yp. Cymun Gŵyl Dewi - Parch. Gareth Ioan.

20fed. 2 yp. Oedfa dan ofal Elonwy Phillips.

Ebrill

3ydd. 10.30 yb. Oedfa dan ofal Parch. Gareth Ioan.

17eg. 3 yp. Cymun oedfa Pasg dan ofal Parch Gareth Ioan.

Penblwydd yn 80 oed

Pob dymuniad da i Barbara Gray, Tŷ Capel, fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Fawrth 19eg. Rydym fel eglwys yn diolch iddi am ei gwaith ac yn gobeithio y gwnaiff fwynhau dathlu gyda'r teulu ac yn dymuno iechyd da iddi i'r dyfodol.

EFAILWEN

Cydymdeimlwn â Kim a Mat Dearden, Seth a Gwen sydd wedi colli tad, a thadcu annwyl yn ddiweddar, sef Hubert Lloyd Davies o Landysilio.

Hefyd, cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Kevin Williams, sef Kevin Waunlwyd a fu farw'n ddiweddar wedi

cystudd blin. Mae'n meddyliau gyda'i weddw Janice, y plant Ceri Bevington, Jo-Anne Williams-Parker ac Emma Davies, hefyd 10 o wyrion a'i chwaer Pat Morgan a'i frawd Gary Williams, Glandy Cross. Clywsom hefyd am farwolaeth Dewi Bowen, Cartref, Efailwen gynt o Siop Glandy Cross. Mae ein cydymdeimlad â'r plant Richard, Anwen a Meredydd a'u teuluoedd.

Dymunwn wellhad buan i Mair Eynon, Awel Deg, Glandy Cross sydd wedi bod yn anhwylys yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Andrew, Kim a Samantha, hefyd eu chwaer Elfair ar farwolaeth mam a mamgu gariadus, sef Alvira Davies, 12 Maesybryn, Llandysilio. Bu'r angladd yng nghapel Hebron ar y 15fed o Chwefror.

Diolch. Dymuna Andrew, Elfair a'r teulu ddiolch o galon am yr holl gardiau, blodau a'r galwadau ffôn ar ôl colli mam gariadus, sef Alvira Davies.

TRELECH

Penblwydd hapus a phob dymuniad da i Eleri Rees, Ger y Gawnen ar ddathlu penblwydd arbennig ar ddechrau mis Mawrth.

.... hefyd i Mrs Novella Walters, Nantycyw a fydd yn dathlu penblwydd arbennig ar ddiwedd mis Chwefror

Llongyfarchiadau mawr i Rhian a Simon, Sarnau ar enedigaeth bachgen bach Howell Siôn yn ystod mis Chwefror. Wyr bach newydd i Lloyd ac Eiddwen Howells.

Diolch. Dymuna Carol a David Greeves, Pentrecagal, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt ar golli tad Carol, sef Roderick Bevan, Maenclochog.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn fawr ac Alun a Linda Davies a'r teulu, Waunolau Fawr, ar farwolaeth brawd Alun, Emyr o Bont Goch ger Aberystwyth yn sydyn ym mis Ionawr.

... hefyd â theulu y diweddar Mrs Mair Jones, Pantyberth a fu farw yn ddiweddar.

...hefyd â Ray a Gwyneth, Maes yr Awel sydd wedi colli ŵyr bach deufis oed. Roedd yn un o efeilliaid ac wedi cael triniaeth ar ei galon yn ysbyty Bryste. Bu farw yn sydyn ar ddiwedd mis Ionawr.



Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE



Atgyweirio a M.O.T.

Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr



ARBENIGWYR MEWN PWMPs FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŪR BRWNT A SOLAR

Fferm Ffynnonlwyd Llangynin
San Clêr
SA33 4LD

Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693

e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SION HARRIES
SEIRI COED

EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED



FFÔN:-
01994 240857



LLANGYNIN

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Martha Griffiths, Blaen-corse, yng Nghartref Gofal Pantydderwen, Caerfyrddin. Cynhaliwyd yr angladd ddydd Mawrth, 1af Chwefror yng Nghapel Bethlehem, Pwll Trap, ac yna claddedigaeth i ddilyn ym mynwent Nasareth, Hen Dŷ Gwyn ar Daf. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parch. Rhodri Glyn Thomas a daeth nifer fawr o gyfeillion i dalu'r deyrnged olaf i Martha ac i ddangos eu parch a'u cefnogaeth i Gerwyn a'r teulu. Cydymdeimlwn yn fawr â Gerwyn ar farwolaeth ei briod, ac â'r merched Sharon a Marian a'u teuluoedd i gyd yn eu colled a'u hiraeth.

Cofiw'n am Elfed ac Eifiona Lewis, 3 Llys Coed, John Lewis, Maes Mebyd a Paul a Wendy, Min-yr-awel, sydd wedi colli perthynas iddynt, sef Dalys Elias o Gaerfyrddin. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu colled.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i Rebecca a Meredith Morris a'r teulu, Blaenffynhonnau ac Aber, ar farwolaeth tadcu Rebecca, sef Mr. Wilson Parri o Wrecsam, yn ystod mis Ionawr.

Pen blwydd hapus

Pen blwydd hapus iawn i Myra Davies, Llain, sydd yn dathlu ei phen blwydd yn 83 ar Chwefror 18fed.

Priodas Aur



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Elfed ac Eifiona Lewis 3 Llysoed, Llangynin a fydd yn dathlu eu Priodas Aur ar Fawrth 25ain. Oddi wrth Geraint, Jenny, Carwyn, Sarah a'r plant.

BANCYFELIN



Diolch yn fawr iawn i John Thomas, Derllys gynt gyda chymorth ei briod, Carol am grynhoi hanes Capel Cana, Bancyfelin a'i gyhoeddi mewn llyfryn ar ein cyfer. Dyma gymwynas fawr i'r eglwys a chyfraniad arbennig i nodi ddathlu 200 mlwyddiant Cana.

Gibeon

Cafwyd hanes gwerthiant buches odro Meirion a Margaret Williams, Lower Court, ar y rhaglen "Ffermio". Roedden nhw wedi meithrin y fuches yn ofalus dros deng mlynedd ar hugain a chafwyd gwerthiant lwyddiannus a haeddiannol, er tristwch iddynt oedd ffarwelio â'r gwartheg. Llongyfarchwn hwy ar yr hyn mae'n nhw wedi ei gyflawni a dymunwn yn dda i Meirion a Margaret ar y bennod nesaf yn eu bywydau.

Mae sawl casgliad yn rhan o waith Tŷ Croeso ar hyn o bryd.

Hen sbectol – gellir eu gadael yn y capel, siop Bancyfelin neu Pethau Olyv.

Mae angen rhai nwyddau ar y Banc Bwyd – mae modd eu gadael yn Co-op a Spar, San Cler Wyau Pasg a siocledi erbyn y Pasg ar gyfer y Banc Bwyd a Lloches Gwragedd Caerfyrddin.

Trefn Suliau Mis Mawrth

- 6ed: Gwasanaeth Gŵyl Dewi ac Oedfa Gymun - Bethlehem Newydd
- 13eg: Oedfa dan ofal y Parch. Desmond Davies – Bethlehem Newydd
- 20fed: Oedfa dan ofal y Gweinidog – Gibeon
- 27ain: Oedfa dan ofal Mrs. Maria Evans – Bethlehem Newydd

CJ Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com



Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James

J. K. Lewis a'i Fab

Glandy Cross



Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen amoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul, 7y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard
San Clêr

Ffôn: (01994) 231390



HENDYGWYN AR DAF

Tabernacl

Mae mis Ionawr wedi hedfan heibio ac rydym yn parhau i gwrdd bob bore Sul am 10 o'r gloch. Yn ogystal â chwrdd yn y capel mae nifer o ddigwyddiadau yn digwydd 'ar-lein' a hynny trwy 'zoom'. Mae'r Ysgol Sul yn cwrdd yn fisol trwy 'Zoom' a braf yw gweld fod y plant yn dal i gefnogi'r Ysgol Sul yn y ffordd newydd yma.



Hefyd mae gennym oedfa fisol trwy 'zoom' i'r rhai sydd eisiau addoli trwy 'zoom'. Hefyd mae gyda ni grŵp trafod y Beibl ar gyfer yr aelodau a chyfeillion. Mae'r grŵp yma yn cwrdd bob pythefnos trwy 'zoom'. Braf yw gweld hyd at bymtheg yn ymuno gyda ni wrth i ni drafod efengyl Mathew.



Llongyfarchiadau i Jonathan a Hedydd ar enedigaeth Anni Jên. Mae'n wyres i Arwyn a Jane Thomas, Hendy-gwyn a Neal ac Ann Wilson, Llanybydder. Pob dymuniad da wrth bawb yn y Tabernacl.

Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno gyda ni yn y capel neu trwy 'zoom'. Cysylltwch am fwy o fanylion.

Hoelion Wyth - Cangen Hendy-gwyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror ar nos Iau y 3ydd, fel arfer yn Lolfa Clwb Rygbi Hendy-gwyn. Estynnodd y Cadeirydd, Claude James, groeso cynnes i'r siaradwr gwadd, sef y Milfeddyg Robert Davies, yn wreiddiol o Efailwen ond yn awr yn byw yn Llanboidy. Dechreuodd ei ddiddordeb mewn milfeddygaeth ac anifeiliaid pan yn blentyn gartref ar y fferm, yn Pencerrig, Efailwen. Yn ystod ei amser yn Ysgol Beca ac wedyn yn Ysgol y Preseli, parhaodd yr uchelgais. Cafodd ei dderbyn i Goleg Wye yn Llundain i astudio amaethyddiaeth am ddwy flynedd ac wedyn i Brifysgol Bryste lle graddiodd mewn milfeddygiaeth yn 1994, ar ôl cwblhau'r cwrs mewn pedair blynedd yn lle'r pump arferol.

Treuliodd blynnyddoedd cyntaf ei yrfa gyda Milfeddyg o Hwlfordd, yn rhoi gwasanaeth i ffermydd gwaelod Sir Benfro. Ymunodd â thîm Milfeddygon Allen a'i Bartneriaid, Hendy-gwyn yn 2005, gan ei wneud yn bartner yn 2008.

Cafwyd llawer o straeon difyr am ei brofiadau pan fu'n delio gydag anifeiliaid mawr a bach, ac hyd yn oed rhai egsotig fel zebras a llewod, pan yn ymweld â Fferm Folly. Hefyd, cafwyd ganddo ei safbwynt a'i farn bendant ar sefyllfa'r clefyd Dicau sy'n dal i fod yn broblem fawr i ffermydd Cymru a thu hwnt. Hyd nes i'r Llywodraeth edrych ar bob agwedd o'r broblem, yn cynnwys y moch-daebar, bydd y Dicau yma am flynyddoedd eto gyda fawr obaith i'w waredu.

Cafwyd noson a chyflwyniad gwyach, yn llawn hiwmor a chwerthin, a diolchwyd i Robert ar ran yr aelodau, gan Mel Jenkins.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Richard, Ffion a Betsi, 2 Velfrey Road, ar farwolaeth mam a mamgu gariadus, sef Alvira Davies, 12 Maesybryn, Llandysilio.

LLANBOIDY

Penblwydd. Dymuniadau gorau i Joyce Phillips, Maesygrove (merch Ronnie a Mair Morgan, Picadilly) a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 60 oed ar Chwefror 2ail.hefyd dymunir gwellhad i'w gŵr, David, sy'n disgwyl mynd i Ysbyty Caerdydd i gael triniaeth.

Ni chynhaliwyd cyfarfod Sefydliad y Merched ym mis Ionawr.

Rhys Jones
Glanhau
Simnai

Glanhau Simneiau • Cynnal a Chadw
Arolygiad Teledu Cylch Cyfng
Tynnu nythod adar • Gwiriadau diogelwch
Gosod larymau Carbon Monocsid
Gwasanaethu/atgyweirio stoffiau a lleoedd tân
Yswiriant a chymhwysiaid llawn

☎ 07554 647544
www.rhysjoneschimneysweeping.co.uk

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin

Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy

Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa
Clunderwen

GWASANAETH DOSBARTHU
AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich
presgripsiwn, cysylltwch â ni

Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
Clunderwen. SA66 7NP

RHYDYCEISIAID

Hyfryd oedd cael mynd nôl i'r capel ar ôl y cyfnod clo i'r oedfa ar Chwefror 6ed o dan ofal y Parch. Guto Llywelyn, a diolch iddo.

Pleser oedd croesawu aelod newydd, sef Mrs Elin Lloyd, Penlan House.

LOGIN

Calfaria

Oedfaon

Diolch o galon i Mr Hefin Wyn a Mrs Catrin Isaac Thomas am eu gwasanaeth dros y Sulie dwetha, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Mawrth 6ed - Annalyn Davies - Cymun am 10.30

20fed - Peter Thomas - Cwrdd am 2

Ebrill 3ydd - Hefin Wyn - Cymun am 2

17eg - Euros Jones Evans - Bedydd a Cymun am 10.30

Gwellhad

Da yw deall bod Hywel Llewellyn, Dancware wedi dod mas o'r ysbyty erbyn hyn ac yn cael gofal da yng Nghartref Parc-y-llyn. Yr un modd Jean Jones, Talar Wen sydd yng Nghartref Maes Llewellyn yng Nghastell Newydd Emlyn. Cofiw'n yn annwyl am y ddau ohonynt.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau mawr i Megan Morris (merch Kevin a Delyth Morris, Bryntaf) ar ei dyweddiad gyda Sam ar ddydd Nadolig. Pob dymuniad da ac hapusrwydd i'r ddau i'r dyfodol.

Adroddiad Blynyddol

Cafodd yr adroddiad blynyddol ei ddosbarthu ymysg yr aelodau ar Sul, Ionawr 23ain - diolch o galon i Faith ac Eurfyl am eu heffeithiolrwydd arferol.

Penblwydd hapus i ysgrifennydd y capel, sef Eurfyl Lewis, sy'n dathlu ei benblwydd yn 60 mwydd oed ar Fawrth 8fed. Dymuniadau gorau a mwynha'r dathliadau.

Cylch Meithrin Ffynnonwen

Gweler manylion Clwb Hwyl Ffynnonwen, yn ystod gwyliau'r Pasg ar y poster. Hefyd mae angen bwcio enw eich plentyn lawr os ydych am iddo/iddi fynychu'r Cylch. Mae'r rhestr aros yn cynyddu. Manylion cysylltu ar y poster.

Clwb Hwyl Cylch Meithrin Ffynnonwen

Bob dydd Mawrth a Mercher yn

ystod gwyliau'r Pasg

ar gyfer plant 2-12 oed

Amser: 8.15yb tan 4.30yp

Tâl: £29 (yn cynnwys snac a chinio)

(Disgownt am ail blentyn)

Cynnig gofal plant 3-4 oed

I archebu lle cysylltwch â 07796413308

cmffynnonwen@outlook.com

CWMFELIN MYNACH

Ramoth

Cynhaliwyd dwy oedfa yn ystod y mis dan ofal Mr Hefin Wyn a'r Parch. Huw George a diolch iddynt am eu gwasanaeth.

Suliau mis Mawrth

6ed: Cymundeb - Parch Euros Wyn Jones am 2.00

13eg: Oedfa yng ngofal Y Parch. Huw George am 2.00

LLANGLYDWEN

Pob dymuniad da a phenblwydd hapus i Eurfyl Lewis Lluest, a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 60 ar Fawrth yr 8fed. Pob hwyl a chariad wrth y teulu oll.

LLANDYSILIO

Trist oedd clywed am farwolaeth Hubert Davies. Cydymdeimlwn gyda Mary ei wraig a Kim a'r teulu.

....hefyd cydymdeimlwn â Margaret Narbett a'r teulu, ar farwolaeth ei merch Sandra (Narbett gynt).

....hefyd gyda theulu Alvira Davies ar ei mawrolaeth.

....hefyd ag unrhyw un arall sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Swydd newydd

Llongyfarchiadau mawr i Mr Edryd Eynon ar ei swydd newydd fel Prifathro yn Ysgol Brynconin a Maenclochog. Fe ddechreuodd yn y swydd nôl ym mis Ionawr. Dymunwn yn dda iddo.

Hefyd llongyfarchiadau i Rob Phillips, Llandysilio gynt, ar ei swydd newydd fel Arbenigwr Iechyd ac Amgylchedd gydag Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon. Dymunwn pob llwyddiant iddo.

arwyddion
eaglesigns

Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Llifrau Cerbydau...

01994 231 749

post@eaglesigns-wales.co.uk

www.eaglesigns-wales.co.uk

UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS

Dandre
Llanboidy



Paentiwr ac
Addurnwr


Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL

 **Monraker** 

Plymiwr
a gwaith cyffredinol

"Handyman"

 **Tir y Bont** 
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf

Ffôn: 07837 089648

Diolch

Hoffai Haulwen, Ben, Sion Pridmore a'r teulu ddiolch i pawb a gyfranodd er côf am Gary. Maent yn ddiolchgar iawn am yr holl gefnogaeth dderbyniwyd, yn enwedig i'r staff ar y ward canser am y cyfan a wnaethant. Mae'r llun yn dangos y teulu yn cyflwyno sic i Apêl uned ddydd canser Ysbyty Llwynhelyg.

CYLCH MEITHRIN LLANDYSILIO

Croeso mawr i'r plant newydd sydd wedi ymuno â ni yn y Cylch, a phob lwc i'r 4 sydd wedi symud lan i Ysgol Brynconin yn mis Ionawr.

Addysg Gymraeg i blant 2-4 oed, yn Neuadd Llandysilio. Bore Llun, Mawrth, Iau a Gwener. 9.00yb tan 12.00 canol dydd. £8.00 y sesiwn.

CYLCH TI A FI LLANDYSILIO

I blant 0-4 gyda rhiant/gwarchodwr. pob bore Mercher 10yb tan 12.00 canol dydd yn Neuadd Llandysilio. £3.00 y sesiwn.

Am fwy o fanylion am Cylch Meithrin a Ti a Fi cysylltwch â Delyth Roblin ar 07882639867

PWYLLGOR NEUADD LLANDYSILIO

Dewch i ymuno â ni yng nghyfarfod Pwyllgor Neuadd Llandysilio, mae croeso mawr i chi. Rydym yn cwrdd ar yr ail nos Lun o bob mis am 7.30yh. Bydd cyfarfod mis Mawrth ar 14eg.

Teyrnged i Elizabeth Merlys Davies

Daeth ton o dristwch dros ardal 'Y Cardi Bach' a 'Clebran' pan dorwyd y newyddion am farwolaeth Merlys, Awelfa, Llandysilio, Clunderwen. Yn wreiddiol o ardal Llanboidy ond wedi ymgartrefu yn ardal Llangolman a Llandysilio drwy gydol ei bywyd priodasol. Meddai Merlys ar bersonoliaeth hynaws a

chymrai ofal dros ei ymddangosiad a'i chartref. Roedd ei theulu yn golygu llawer iawn iddi. Bu yn aelod ffyddlon yng Nghapel Llandeilo ac wrth ei bodd yn ymuno â'i ffrindiau yng Nghaffi Beca gyda Cangen Beca o Ferched y Wawr.

Gwynebodd ei salwch gyda dewder a gwroldeb arbenig, a rhaid diolch yn ddidwyll iawn i Meddygfa Arberth, Ed y Fferylllydd caredig yn Clunderwen a staff Hosbis Paul Sartori yn Hwlfordd am eu caredigrwydd diflino.

Gwelir ei cholled yn fawr yn ein plith. Ar yr aelwyd yn Awelfa fodd bynnag bydd y golled fwyaf. Bu yn briod i Glanville am 65 mlynedd ac yn fam addfwyn i Carol a'i gŵr Peter sydd yn byw yn Nailsea ger Bryste. Bu hefyd yn chwaer ffyddlon i Eirianwen a'i theulu ym Mhenybont ar Ogwr.

Cynhaliwyd oedfa goffa am ei bywyd yn Amlosgfa Parc Gwyn ar Ragfyr 21ain 2021. Yr oedd y gwasanaeth diolchgarwch yma yng ngofal y Parchedigion Ken Thomas a Huw George – oedfa gofiadwy iawn. Rhaid diolch i bawb (ffrindiau, cymdogion, teulu) heb anghofio Ken Davies a Lynys (trefnwyr angladdau) ag hefyd Emrys a'u staff yn Nantffyn. Diolch.

Dyma englyn y Parch Gerald Jones er cof am Merlys.

"I'w hirddydd yn llawn urddas – a'i heulwen
Mor wylaidd o'i chwmpas,
Un o griw hen Lannau gras,
I'w chymun a'i chymwynas."

TRYSORWN EIN ATGOFION

Eirianwen Stanford

Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon

Cyflogau
Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Delwedd
07814 543634

*Salon Harddwch a Chyflenwol
Crymlych*

Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion

**POBYDDION
COUNTY STORES**

San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

NEWYDDION BLAENCONIN

Agorwch y drysau !

Ar ôl i bron i ddwy flynedd o gyfyngiadau, mae'r amser wedi dod inni gyhoeddi, 'Agorwch y drysau !' gan wahodd aelodau a chyfeillion yr Eglwys i oedfa Gymundeb ar yr ail Sul o Fawrth. Byddwn yn ofalus ac yn wyladwrus wrth gwrs, ac yn manteisio ar y cyfle i gyd-addoli unwaith eto. Dewch i uno yn y dathlu !

Datrys Dirgelwch y Deugain

Ym 1980, rhoddodd un o'r aelodau her i weinidog newydd Blaenconin ac am ddeugain mlynedd a mwy mae Huw wedi bod yn ceisio datrys y dirgelwch. Daeth yn agos sawl gwaith ond, er ei ymdrechion, nid oedd mewn sefyllfa i gyhoeddi ei fod wedi llwyddo. Mae'r un a roddodd yr her bellach yn gorwedd ym mynwent Blaenconin ond mae'r gweinidog wedi dal ati yn ffyddlon. Bellach, mae mewn sefyllfa i gyhoeddi ei fod wedi datrys y dirgelwch ac wedi llwyddo i gwblhau'r her. Beth oedd yr her ? Pwy oedd y gyfrifol am osod yr her ? Sut mae Huw wedi datrys y dirgelwch ? Bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn a mwy o newyddion cyffrous yn dod i'r amlwg yn ystod yr wythnosau nesaf.

Canmlwyddiant Cofeb Llandysilio

Dadorchuddiwyd cofeb Llandysilio ar y 1af o Fawrth, 1922 ac mae'r gymuned yn paratoi cyfarfod arbennig i nodi'r achlysur. Bydd manylion pellach ar gael yn fuan.

NEWYDDION o'r FFYNNON

Oedfaon yn y Ffynnon

Mawr yw'r cyffro wrth i'r aelodau drefnu oedfa Gymundeb yn y Ffynnon nos Iau, 14eg Ebrill am 7 o'r gloch i gofio'r Swper Olaf.

Cymru, gyda Hannah Richards, Lleu Pryce a Cao Pryce yn eilyddion. Ac mae Celyn Richards wedi ei dewis i gynrychioli Sir Gâr yn yr Adran Ddarllen o dan 14 oed.



Adran hŷn: Elen Jones, Fiona Phillips, Siôn Evans(Cadeirydd Gweithgareddau) a Mared Evans



Adran ganol: Daniel O Calahan, Lleu a Cao Pryce a Hannah Richards, a Hefin Evans , Cadeirydd Y Sir

C.Ff.I. Penybont

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yng ngystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. Sir Gâr ddiwedd Ionawr. Daeth y criw o dan 28 oed yn fuddugol yn y gystadleuaeth Siarad ar ôl Cinio gyda Mared Evans yn ennill y siaradwr gorau. Bydd Mared yn cynrychioli Sir Gâr yn Nghystadleuaeth C.Ff.I. Cymru yn y gwanwyn ac Elen Jones a Fiona Phillips yn eilyddion. Cipiwyd y wobwr gyntaf yn yr Adran Ganol hefyd, yng nghystadleuaeth Y Seiat Holi gyda Daniel O'Callaghan yn ennill y siaradwr gorau ac yn cael ei ddewis ar gyfer rownd



Daniel O Callaghan, Celyn Richards a Mared Evans ar eu ffordd i Lanelwedd i gynrychioli Sir Gâr yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus C.Ff.I. Cymru

 **the LONDON HOUSE** butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygywn ar Daf
SA34 0AN

01994 240705 / 240055

Galwch mewn am y dewis gorau

Dilynwch ni ar Facebook 

 **GERALD BLAIN**
CYNDEITHRINN CYF

15 Stryd St Ioan, Hendygywn, SA34 0AN

01994 240 366

GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK

GERALDBLAINASSOCIATES.COM

 @GBASSOCIATES

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen

Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

**FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS**

FFENESTRI, DRYSAU, PVC
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI

TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN

01437 563 806 / 07774 812587

CAFFI BECA

Oriau Agor: 9.00yb-2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn

Efailwen
01994 419735

WYN'S TYRES

BREICIAU ac EGSOSTS

Galwch i mewn am brisau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1

WEMBLEY GARAGE
SAN CLER

Ffôn: (01994) 231599

**GWASANAETH
CEIR HENDYGWYN**

Canolfan
atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts a.y.y.b

Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendygywyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

**SIOP SIAN
CRYMYCH**

Crefftau Cymreig
Gemwaith Rhiannon
Crisial Brenhinol Cymru
Crefftau Lleol

Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau
Crymych, SA41 3QF
FFôn: 01239 831230

Bwyd Byo

- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus

- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyo@gmail.com

SPAR

Jerry Williams a'i Feibion

GROSER a SWYDDFA BOST

**CLOTH HALL
LLANBOIDY**

Ffôn: 01994 448364 / 448221

**Adailadwyr
DORIAN PHILLIPS**

Crefftwyr o bob math yn y diwydiant
adeiladu o hen i newydd

**Arbennigwyr mewn ail wneud
Capeli, Eglwysi ac Ysguborau**

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygywyn, Sir Gar, SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 - Rhif Symudol 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

**dp MASNACHWYR
ADEILADU**

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad
Insiwleiddio - Ceginau - Bathrws
A Llauer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbbuildingsupplies.co.uk

TAF

AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7 -12.00

**MASNACHWYR
ADEILADU**

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan

ECA CYMERADWYEDIG GAN
NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygywyn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

**ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG**

SIGN & DESIGN

01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk

UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

**DAVID HARRIES
& Co**

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

**Bysiau Cwm
Tâf**

"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"

PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH

01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR

Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb

- Gwasanaeth plymio llawn
- Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
- Gwasanaeth teilio llawn
- Dyfnbris am ddim
- 25 mlynedd o brofiad

07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk



YSGOL GRIFFITH JONES

Dathlu Pen-blwydd yr Urdd

Bu dathlu brwd ar Ionawr 31ain wrth i'r Ysgol ymuno yn nathliadau canmlwyddiant yr Urdd. Ymunodd pob dosbarth yn y parti cenedlaethol ar 'Zoom' ynghyd â 95,000 o blant eraill dros Gymru. Yn ystod y diwrnod bu'r dosbarthiadau yn dathlu drwy gynnal gweithgareddau amrywiol gan gynnwys creu cardiau pen-blwydd i Mr Urdd, dawnsio gwerin, giamocs a chreu posteri 'Oriel Odl'. Bu pob dosbarth hefyd yn cymryd rhan yn ymgais yr Urdd i dorri dwy record byd. Perfformiodd y dosbarthiadau gân 'Hei Mr Urdd' a'u huwchlwytho ar 'Trydar' a 'Facebook'. Yn ystod y prynhawn fe gyhoeddodd y mudiad "bod yr Urdd a'i gefnogwyr wedi torri dwy record byd drwy lwytho y nifer mwyaf o fideos o bobl yn canu'r un gân ar y cyfryngau cymdeithasol." Roedd yn gyfle gwych i'n disgyblion i fod yn rhan o gyffro torri record byd, cyfle y byddan nhw'n siŵr o gofio am flynyddoedd i ddod.



Dosbarth Non yn dathlu Pen-blwydd yr Urdd yn 100

Santes Dwynwen

Yng nghanol cyffro dathliadau canmlwyddiant yr Urdd, ni aeth diwrnod Santes ein cariadon yn angof. Bu'r dosbarthiadau yn creu cardiau ac fe gafwyd llawer o hwyl yn ystod y prynhawn wrth ymuno yn hwyl y disgo Santes Dwynwen ar 'Cymru FM.'

Pwyllgor yr Ardd

Er gwaethaf misoedd oer y Gaeaf mae Pwyllgor yr Ardd wedi parhau i fod yn brysur yn paratoi'r tir a thacluso'r gwelyau blodau. Roeddent wrth eu bodd yn derbyn sied newydd sbon yn ogystal â rhodd o wilber newydd oddi wrth Evans Country Stores – diolch yn fawr!

Fe wnaeth y pwyllgor drefnu cystadleuaeth arlunio er mwyn addurno'r gwelyau blodau. Dyma'r enillwyr - Leon, Maya a Mael.



Sied newydd



Cystadleuaeth i addurno'r gwelyau blodau newydd

Drama

Bu dosbarthiadau Blwyddyn 5 a 6 Pwyll, Myrddin a Culhwch yn ffodus iawn i fwynhau perfformiad o'r ddrama 'Tu fewn, Tu fas' gan gwmni Theatr Arad Goch. Cafodd y disgyblion gyfle hefyd i holi'r actorion mewn gweithdai rhithiol ynglyn â'u cymeriadau ac am eu profiadau o fod yn rhan o'r cynhyrchiad. Roedd y ddrama yn gyfle gwerthfawr i'r disgyblion drafod rhai o'r gofidiau sy'n effeithio ar blant ifanc a'r dulliau gwahanol i ymdopi â'r gofidiau yma.

Dydd Miwsig Cymru

Ar Chwefror y 4ydd bu'r Ysgol yn dathlu 'Dydd Miwsig Cymru'. Cafwyd dawnsio i hoff ganeuon yn y Cyfnod

Sylfaen, tra bu'r Adran Iau yn gwerthuso a dewis hoff draciau o'r adnoddau gwyh a rannwyd gan Menter Gorllewin Sir Gâr. Roedd 'Coffi Du' gan 'Gwibdaith Hen Frân' yn dipyn o ffefryn yn nosbarth Pwyl!



Dosbarth Dewi yn dawnsio ar Ddydd Miwsig Cymru

Blwyddyn Newydd Tseineidd

Bu'r disgyblion yn mwynhau dysgu am Flwyddyn Newydd Tseineidd, sef Blwyddyn y Teigr eleni. Buont yn dawnsio, creu mygydau teigrod a chreu dreigiau papur.



Dosbarth Non yn dathlu Blwyddyn Newydd Tseineidd

YSGOL BANCYFELIN

PC Cath

Bu PC Cath yn cynnal sesiwn rithiol gyda disgyblion Blwyddyn 3-6 ar gadw'n ddiogel yn ystod mis Ionawr.

The Bumbles of Honeywood



Diolch i garedigrwydd Mike Phillips a'i gwmni Coffi - y Fab Four, bu Gemma Pugh o gwmni'r Bumbles of Hon-

eywood yn cyflwyno pecyn dyfeisgarwch i ni. Edrychwn ymlaen at gyd-weithio gyda'r Fab Four a Gemma yn fuan iawn ar y cynllun.

Parch. Beti Wyn James

Braf hefyd oedd croesawu'r Parch. Beti Wyn James nôl i'r ysgol er mwyn cynnal gwasanaeth gyda ni.

Dathliadau 150 mlynedd

Bydd Ysgol Bancyfelin yn dathlu ei phenblwydd yn 150 eleni. Bwriadwn gael diwrnod dathlu ar Ebrill 30ain. Manylion i ddilyn pan fyddwn yn gwybod mwy am reolau COVID ar y pryd.

YSGOL BECA

Croeso Miss Gwyther

Braf yw croesawu Miss Gwyther i Ysgol Beca. Bydd Miss Gwyther yn gweithio gyda disgyblion ar draws yr ysgol. Croeso i ti i'r criw.

Sesiynau Rygbi'r Scarlets

Trwy gydol y tymor hyd yn hyn mae disgyblion Cyfnod Allweddol Dau wedi bod yn ffodus i dderbyn sesiynau rygbi gyda'r Scarlets. Mae'r disgyblion wedi mwynhau dysgu sgiliau rygbi newydd. Bydd y disgyblion yn defnyddio eu sgiliau newydd mewn twrnament rygbi yn fuan.

Dydd Miwsig Cymru

Ar y 4ydd o Chwefror, dathlom ddydd Miwsig Cymru fel ysgol. Cafodd y plant ddiwrnod penigamp yn gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg a chwblhau tasgau hwylys.

Yr Urdd yn 100

Dathlom benblwydd yr Urdd ynghyd â holl ddisgyblion ar draws Cymru gyfan. Braf oedd cael diwrnod i ddathlu holl lwyddiannau'r Urdd a chymryd rhan yn curo dau record byd wrth ganu can 'Hei Mr Urdd'.



Mae'r Criw Twm Tanllyd wedi bod yn gweithio'n galed trwy gydol y flwyddyn a llynedd wrth anelu i dderbyn gwobr Aur y Siarter Iaith. Mae'r gwaith caled wedi talu ffordd ar ôl i'r disgyblion wneud cyflwyniad llwyddiannus yn esbonio'r gwaith a'u gyflawnwyd er mwyn derbyn y wobwr aur. Da iawn chi blant!



YSGOL BRO BRYNACH

Ar Ionawr y 25ain, cafwyd diwrnod llawn dathliadau wrth ddathlu diwrnod Santes Dwynwen a phenblwydd yr Urdd yn 100 oed. Buodd y disgyblion yn brysur yn creu cardiau ac addurniadau a dysgu am ddiwylliant Cymru. Recordiwyd y disgyblion yn canu 'Hei Mr Urdd!' ar gyfer ymgais yr Urdd i dorri record y byd – am gamp! Gwisgodd y plant dillad coch, gwyn a gwyrdd ar gyfer hyn. Yn ystod y prynhawn cafwyd disgo yng nghwmni Marc G, Radio Cymru.

Mae pedwar o ddisgyblion blwyddyn 6 wedi bod yn llwyddiannus yn 'Cwis Dim Clem' sydd yn cael ei threfnu gan Menter Gorllewin Sir Gâr. Mae Greta, Isaac, Ruby a Drystan wedi cyrraedd y ffeinal, pob lwc iddyn nhw yn y rownd derfynol.



Tim Cwis Dim Clem



Braf oedd croesawu Elinor o'r Gwasanaeth Tân i'r ysgol i siarad gyda dosbarthiadau Sien a Cynin am ddiogelwch tân a pheryglon yn y cartref, gan gynnwys ampiâu nwyddau trydan, gadael matshys a chanhwyllau ar hyd y lle. Ymatebodd y disgyblion yn dda.

Hefyd, croesawon ni Rhodri o 'Criced Cymru' er mwyn rhoi blas i'r plant o griced. Cafwyd sesiynau hwylus a llawn sbort. Chwaraewyd gemau a dysgu gweithio fel tîm.

Mae criw o'r Scarlets yn cynnal sesiynau rygbi rheolaeth gyda disgyblion CA2 ac mae sgiliau da yn cael eu datblygu.

Ar ddiwedd yr hanner tymor byddwn yn ffarwelio â John Rees, ein gofawr sydd wedi roi gwasanaeth i'r ysgol am dros 11 mlynedd. Hoffwn ddiolch i John am ei holl waith dros y blyneddodedd a dymuno ymddeoliad hapus iawn iddo.

YSGOL BRYNCONIN

Dathlu'r Urdd yn 100 oed

Roedd hi'n ddiwrnod arbennig ar ddydd Mawrth, y 25ain o Ionawr - roedd yr Urdd yn dathlu penblwydd yn 100 oed. Cawson ni barti i ddathlu y penblwydd arbennig, disgo a nifer o weithgareddau hwyl i ddathlu'r achlysur. Roedd hi'n ddiwrnod da ond y peth gorau oedd cymryd rhan yn ymgais yr Urdd i dorri record y byd o'r mwyaf o fideos o bobl yn canu cân 'Hei Mr Urdd' i gael ei uwchlwytho i Twitter a Facebook o fewn awr. Buon ni yn rhan o'r her yna ac rydym yn falch fod yr Urdd wedi torri record y byd. Hwre!

Gwersi offerynnol

Mae rhai o unigolion yn yr ysgol yn cael gwersi telyn a phiano gyda Claire Jones bob dydd Mawrth yn yr ysgol. Mae sŵn hyfryd yn dod a'r neuadd adeg y gwersi offerynnol hyn.

Rygbi

Rydyn ni yn ysgol Brynconin yn mwynhau sesiynau rygbi gyda swyddog rygbi y Scarlets. Mae Mike Jones o'r Scarlets yn dod bob yn ail ddydd Mawrth i ddysgu sgiliau rygbi i ni. Rydyn ni'n mwynhau mas draw!

Dydd Miwsig Cymru

Rydym ni wedi bod yn dathlu Dydd Miwsig Cymru ar ddydd Gwener, y 4ydd o Chwefror. Buon ni yn gwrandao ar gerddariaeth Gymraeg trwy'r dydd. Gwnaethon greu fideo 'lipsync' i gerddoriaeth Gymraeg a dysgon ni am am fandiâu a chantorian Cymraeg. Ein hoff gan ni yn Ysgol Brynconin yw 'Rhedeg i Baris' gan Candelas.

gan Catrin (bl.6) a Holly (bl.5)

CARTREF ODDI CARTREF



Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER

FFONIWCH
SHEILA BEYNON
Y RHEOLWRAIG
01994 230855

H THOMAS a'i FAB**Peiriannydd Amaethyddol**

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

**MASNACHWYR ADEILADU
DAVIES**

Cyflenwyr Adeildu a D.I.Y.
Arddangosfa Ceginau
ac Ystafelloedd Ymolchi
ar agor



Heol yr Orsaf
Hendydwyn
Ffôn:
01994 240228

Celia Vlismas
OPTEGYDD



**Croeso i
gleifion GIG!**

Profion golwg GIG ar gael

Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG

Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk

Pethau Olyv

*Ffasiynau, gemwaith
ac ategolion merch*



Mermaid Buildings
Heol y Pentre
San Clêr

Ffôn: 01994 230590
info@pethauolyv.co.uk

SONIA'S
Siop Trin Gwallt
Llandysilio

Oriau Agor

Mercher: 5.30y.h - 9.00y.h.
lau: 8.00y.b. - 3.00y.p.
Gwener: 9.00y.b. - 6.00y.h.
Sadwrn: 8.00y.b. - 2.00y.p.

Ffôn: 01437 563816

LAMO'S
MOTORCYCLES

Dyma'r lle i feicmodurwyr

The Showroom

Llandissilio

Gwerthiant • Gwasanaeth • Atgyweirio

Ffôn / Ffacs: 01437 563678

Emrys ac Ann Murrow

Motel Nantffyn
Llandissilio



Bwyty • Neuadd Wleda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau



Croeso cwrtais bob amser

Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

**Brian John**
ROSE GARAGE

Cwmfelin Mynach
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn / Ffacs: 01994 448426

* Gwaith weldio o safon uchel
** Gwasanaeth ac atgyweirio ar
bob math o gerbyd

OWEN PHILLIPS

Llanddewi Efelffre

SAER COED



Ffôn Symudol:
07919 524569

**G&S Llewellyn a'i Mab**

Contractwyr Amaethyddol

Pen-y-Cwm, Llandysilio

Clunderwen. SA66 7TX

Ffon: 01437 563320

Olew
Trefigin
est. 1985

Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi

TANWYDD Tŷ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW



HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS

Warm to our Service

Cwmni annibynnol,
teuluol, lleol, Cymraeg

(01239)
881630

www.trefigin.cymru

(01239)
881282

Jeff Court

Ceir Newydd ac Ail-law
PEIRIANNYDD MODURON
GWAITH CORFF



MOT

STATION GARAGE
HEOL YR ORSAF
HENDYGWYN AR DAF

SYSTEMAU TYMHERU AER

Ffôn: 01994 240304

Ken Davies a'i Fab
Cigyddion

London House
Crymych



Ffôn: 01239 831978

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion

TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr



Siop Radio a Theledu
CRYMYCH



Setiau ar werth



Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589



Bysiau Cwm Taf

Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol



DYDDIAD	TEITHIAU 2022	PRIS	DIWRNODAU
Gwener 4 -7 Mawrth	DARTMOOR ac ARFORDIR DE DEVON	£275	4 Diwrnod
Sadwrn 12 -15 Mawrth	GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - St AGNES	£270	4 Diwrnod
Sul 13 - 14 Mawrth	NOSON YN GWESTY WALDORF, LLUNDAIN	£185	2 Ddiwrnod
Gwener 18 -20 Mawrth	CLIVE a'I FFRINDIAU yn diddanu yn y CELTIC CAERNARFON	£215	3 Diwrnod
Gwener 25 -28 Mawrth	PENWYTHNOS CABARET YN TORQUAY	£250	4 Diwrnod
Llun 28 Maw - 1 Ebrill	Prydferthwch SOUTH DOWNS yn BOGNOR REGIS	£335	5 Diwrnod
Iau 31 Maw - 4 Ebrill	MÔRDAITH GWATWAROL LLANDUDNO	£425	5 Diwrnod
Iau 7 - 11 Ebrill	CAEAU BLODAU'R ISELDIRIEDD	£495	5 Diwrnod
Gwener 8 - 11 Ebrill	PENWYTHNOS I Ymlacio yn DULYN	£345	4 Diwrnod
Gwener 22 - 25 Ebrill	PENWYTHNOS YN GWESTY BELGRAVE SANDS TORQUAY	£299	4 Diwrnod
Llun 25 -29 Ebrill	RHEILFFYRDD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU	£450	5 Diwrnod
Llun 2 - 6 Mai	Mordaith llong ar Gamlas LERPWL a MAENCEINION	£465	5 Diwrnod
Gwener 6 - 8 Mai	CRWYDRO TAFARNDAI WETHERSPOONS	£195	3 Ddiwrnod
Gwener 13 - 16 Mai	PENWYTHNOS Braf YN GWESTY PALACE PAIGNTON	£300	4 Diwrnod
Sadwrn 14 - 20 Mai	CRWYDRO O AMGYLCH YNYS HARDD JERSEY	£660	7 Diwrnod
Mawrth 17 - 19 Mai	MEN & MOTORS 1V	£265	3 Diwrnod
Sul 22 - 25 Mai	PUDDING CLUB (Noson blasu pwдинаu) & COTSWOLDS	£345	4 Diwrnod
Iau 26 - 28 Mai	SIOE FLODAU CHELSEA	£299	3 Diwrnod
Llun 30 Mai - 2 Mehef	LLANDUDNO - Croeso Twymgalon Gwesty'r Tynedale	£370	4 Diwrnod
Sul 5 - 10 Mehefin	IWERDDON - KERRY	£600	6 Diwrnod
Llun 6 - 9 Mehefin	DARGANFOD GERDDI DORSET	£360	4 Diwrnod
Llun 13 - 17 Mehefin	Ales and Haunted Tales of LANCASHIRE	£435	5 Diwrnod
Mawrth 21-28 Mehefin	YNYS Hudolus ORKNEY a Chastell MEY CAITHNESS yr ALBAN	£900	8 Diwrnod
Sul 26 Mehef - 2 Gorff	Ymweliad a RHEILFFYRDD "BLUEBELL" EASTBOURNE	£535	7 Diwrnod
Iau 7 - 9 Gorffennaf	GOODWOOD FESTIVAL OF SPEED	£320	3 Diwrnod
Iau 14 - 16 Gorff	The Royal International Air Tattoo	£290	3 Diwrnod
Gwener 15 - 20 Gorff	YNYS WYTH (ISLE OF WIGHT)	£415	5 Diwrnod
Sul 24 -25 Gorff	LEGOLAND (WINDSOR)	i/g	2 Diwrnod
Llun 25 - 29 Gorff	HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES	£450	5 Diwrnod
Sul 31 Gorff - 4 Awst	Charming Cheshire & The Wirral Peninsula	£435	5 Ddiwrnod
Sul 7 - 12 Awst	LOCHS a DYFRFFYRDD yr ALBAN	£535	6 Diwrnod
Gwener 12 - 15 Awst	ILFRACOMBE	£340	4 Diwrnod
Sad 20-27 Awst	St ANTON, AWSTRIA	£815	8 Diwrnod
Mer 24 - 27 Awst	SIOE AGER a Hên Beiriannau DORSET, Bournemouth	£340	4 Diwrnod
Sul 4 - 8 Medi	NORMANDY Cyfle i ymweld a mynwentydd y rhai a gollwyd	£595	5 Diwrnod
Llun 5 - 9 Medi	CYMRU a'r GORORAU	£450	5 Diwrnod
Llun 12 - 16 Medi	Norfolk Broads, Steam, Cruise and Sandringham	£495	5 Diwrnod

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau
Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni
01994 240908
www.tafvalleycoaches.co.uk



Login
Hendygywyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk



Nifer y dyddiau		Nifer y dyddiau	
Ebrill		Awst	
Llun 4	Efrog - 'A Ramble in the Shambles'	5	Llun 1, Mer 3 a Gwe 5 Eisteddfod Genedlaethol
Maw 26	<i>Lord of the Dance 25, Theatre Newydd, Caerdydd</i>	1	Gwe 5 BBC Countryfile Live yn Castell Howard
Sad 30	<i>Strictly Come Dancing - Y Dawnsywyr Proffesiynol</i>	1	a Pharc Genedlaethol Dales Swydd Efrog
Mai		Maw 30 Gwibdaith Dirgel	
Sad 7	<i>Sioe Gerdd - Six The Musical, CMC</i>	1	
Sad 7	Saffari Siocled	2	Medi
Llun 9	Iwerddon - Sligo a'r 'Wild Atlantic Way'	6	Llun 5 Ardal y Llynnoedd
Llun 16	Lock, Stock a'r BBC	5	Llun 12 Eastbourne
Sad 21	<i>Sioe Gerdd - School of Rock, CMC</i>	1	Sad 17 Gwyl Fwyd y Fenni
Llun 23	Gwesty Warner - Neuadd Alvaston	5	Maw 20 Cerddoriaeth Bond - Neuadd Brenhinol Albert
Iau 26, Gwe 27 a Sad 28	<i>Ed Sheeran, Stadiwm Principality</i>	1	Gwe 23 Feast Your Pork Pies on Melton Mowbray
Sad 28	<i>Sioe Gerdd - Singin' in the Rain, CMC</i>	1	
Mehefin		Hydref	
Gwe 10	Caerfaddon a Briste	4	Llun 3 Iwerddon - Kerry a Dingle
Mer 15	Diwrnod y Merched - Royal Ascot	3	Gwe 14 Stratford-upon-Avon
Sad 18	Gwibdaith Sir Benfro	1	Sad 15 <i>Sioe Gerdd - South Pacific, CMC</i>
Sad 25	Yr Alban - Dumfries a Galloway	7	Sad 29 <i>Sir Bryn Terfel - Songs & Arias, NDS</i>
Gorffennaf		Tachwedd	
Sad 9	<i>Sioe Gerdd - Y Lion King, CMC</i>	1	Gwe 4 Riviera Lloegr - Twrci a Tinsel, Paignton
Llun 11	'From a Lofty Height to the Isle of Wight'	5	Sad 5 <i>Sioe Gerdd - Sister Act, CMC</i>
Maw 19 a Mer 20	<i>Sioe Frenhinol Cymru</i>	1	Gwe 11 Gwesty Warner - Littlecote Swydd Berkshire
Iau 21	Llandudno	5	Sad 19 Nadolig ar y Coblau (Coronation Street)
Iau 28	Castell Highclere (Abaty Donwnton)	2	Gwe 25 Ffair Nadolig Gwesty'r Metropole, Llandrindod
			Sad 26 Gwyl Olau Longleat

Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!

Llyfrau Llafar Cymru

Yn ystod misoedd olaf 2021, hysbyswyd Pwyllgor Llyfrau Llafar Cymru gan Sulwyn Thomas, ei fod yn dymuno ymddiswyddo fel Cadeirydd ar ddiwedd y flwyddyn. Yn anfoddog iawn y derbyniodd y pwyllgor ei benderfyniad gan iddo fod yn gadeirydd gweithgar a brwdfrydig ers 2010. Ond mae ei gyfraniad cyson a diflino yn ymestyn yn ôl ymhellach na hynny i ddyddiau'r Cynllun Casetiau Cymraeg i'r Deillion. Yn sgil ei holl gysylltiadau a chynifer o bobl led-led Cymru a thu hwnt i Glawdd Offa llwyddodd i ennyn llawer o diddordeb a chefnogwyr i'n Gwasanaeth. Rydym yn parchu'i ddymuniad i symud o'r neilltu er mwyn rhoi cyfle i rywun iau i gymryd yr awenau i'n harwain i'r dyfodol heriol sydd o'n blaenau. Dymunwn yn dda iddo a gwyddom y gallwn ddibynnu arno am ei gefnogaeth i'r elusen eto yn y dyfodol. Aelod arall o'r pwyllgor ers tro yw'r Cynghorydd Emlyn Schiavone a thrwy gytundeb unfrydol yr aelodau gwahoddwyd ef i fod yn olynydd i Sulwyn. Cytunodd i dderbyn y swydd gan addo gwneud ei orau i hyrwyddo'r gwaith. Dymunwn yn dda iddo gan wybod y caiff bob cefnogaeth gan ei gyd-aelodau.

Pe baech yn gwybod am unrhyw un a fyddai'n elwa o'n gwasanaeth neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Mrs Linda Williams:

Rhif ffôn 01267 238225

Gwefan <http://www.llyfraullafarcymru.org.uk>

Ebost: llyfraullafarcymru@outlook.com



PREN DA

Gwaith coed o bob math

Dafydd Makepeace

Fferm y Cross

Llandysilio

Clunderwen

Ffôn: 07967 220289

DERI PAGE CIGYDD



Cig o'r ansawdd gorau

Heol y Pentre
San Clêr

Ffôn: 01994 230062

Diolch am eich cefnogaeth



CONTRACTWYR ADEILADU

Gwasanaeth Cyflawn

Wernddu

Stryd y Brenin Edward

Hendygywyn ar Daf

SA34 0AA

Ffôn: 01994 240534

Symudol: 07966 411443

LYNDON-GEORGE **ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL**

MOT

•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf



Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.
Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

**•RHANNAU SPÂR •GWASANAETH •TEIARS
•BATRIS •WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN
•TYMHERU AER**

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP

George's *o San Clêr*
Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



**Pysgod - Sglodion - Risols
Selsig - Cyw lân - Diodydd**

**Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 20.30**
**Croeso i chi archebu
ar y ffôn
01994 231482**
**Heol yr Orsaf,
San Clêr**



CYW A'I FFRINDIAU'N DATHLU GWNEUD Y PETHAU BYCHAIN!



Mae Cenhen Fwya'r Byd! sef y llyfr nesaf yng nghyfres boblogaidd Cyw gan Anni Llŷn, yn dilyn un o ffrindiau gorau Cyw, Jangl y Jiráf, wrth iddi geisio ennill cystadleuaeth Dydd Gŵyl Dewi – 'Cenhen Fwya'r Byd'!

Mae'r stori yn gweld y ffrindiau yn dod ynghyd i wneud y pethau bychain i helpu'r genhinen i dyfu'n fawr ac yn gryf. Mae'n dysgu plant sut i weithio gyda'i gilydd, dathlu Cymreictod a phwysigrwydd geiriau Dewi Sant "gwnewch y pethau bychain".

Dyma'r nawfed yn y gyfres o lyfrau Cymraeg Cyw sydd yn addas i blant 7 ac iau. Mae gwasg y Lolfa yn cydweithio gyda chwmni teledu Boom Cymru ac S4C i greu a chyhoeddi'r gyfres.

Mae'r gyfres wedi cael enw da fel ffordd o ddysgu geirfa i blant bach – geirfa sy'n gysylltiedig gyda phatrymau iaith syml ar thema'r stori. Yma, ceir nifer o eiriau'n gysylltiedig â maint, e.e. mawr, enfawr, anferth, mwy... Mae storïau'r gyfres yn ymwneud â phethau a digwyddiadau cyfarwydd i blant, a'r cymeriadau'n adnabyddus iawn.

Ers lansio'r gyfres Stori Cyw, datblygwyd cyfres dysgu Cymraeg fel ail iaith Dysgu gyda Cyw hefyd. Mae'r llyfrau yma'n rhoi cymorth i blant di-Gymraeg gael gafael syml ar yr iaith gan eu bod yn llyfrau dwyieithog.

Mae Anni Llŷn yn wyneb cyfarwydd ar y teledu fel cyflwynydd ac actores. Bu'n Fardd Plant Cymru am ddwy flynedd ac mae wedi cynnal gweithdai mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru. Cafodd ei magu ym Mhen Llŷn ac ar ôl cyfnod yng Nghaerdydd mae hi a'i gŵr wedi symud yn ôl i'w hardal enedigol i fagu teulu.

Mae Cenhen Fwya'r Byd! gan Anni Llŷn ar gael nawr (£3.95, Y Lolfa).

Llyfrau eraill yng nghyfres Stori Cyw: Cyw yn yr Ysbyty; Cyw yn yr Ysgol; Cyw ar y Fferm; Nadolig Llawen Cyw; Pen-blwydd Hapus Cyw; Mabolgampau Plwmp; Cyw: Llew a'r Dant Coll; Bolgi a'r Wŷn Bach

Gwasg y Lolfa

Teitl - Cenhen Fwya'r Byd!

Pris - £3.95

Awdur: Anni Llŷn



Hwyl Gŵyl Ddewi



CYSTADLEUAETH Cyfle i un darlennydd twcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae'r cennin Pedr yng ngardd Mam-gu
Iet-wen mor felyn â'r haul.

Fedrwch chi enwi'r pethau melyn sydd
ar y petalau cyn aildrefnu'r sêr i
greu gair arbennig iawn?



Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 8/3/22

Charlie Williams o Efailwen yw enillydd Cystadleuaeth Mis Ionawr.
Ateb Cystadleuaeth Mis Ionawr: Llwy A oedd â'r nifer fwyaf o galonnau.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer. www.wenfro.cymru

© y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2022



Bydd enw enillydd y
gystadleuaeth yn cael ei
gyhoeddi yn y rhifyn nesaf.

PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd Hapus i'r cefnder a'r cyfnither, Osian Tomos oedd yn 4oed ar Ragfyr 12fed a Lotti Haf fydd yn 4oed ar Fawrth 17eg. Cariad Mawr wrth Dats a Mam-Mam Efail Fach, Henllan Amgoed, a'r teulu.



Penblwydd Hapus i Cerys a oedd yn 7 oed ar Chwefror 5ed a Tomi a oedd yn 5 oed ar Chwefror 21ain. Mae'r ddau yn byw yn Adelaide, Awstralia. Llauer o gariad oddi wrth Mamgu (Doreen Thomas, Pwll Trap),

Wncwl Alun, Dadcu a Mamgu Dre (Derek ac Elonwy Cleaver) ac Auntie Steph, Wncwl Paul a Joshua.



Penblwydd Hapus i'r ddwy gyfnither Marged Aur ac Elain Gwen o Drelech. Roedd Elain yn dathlu ei phenblwydd yn 5 oed ar ddechrau Chwefror ac mae Marged yn dathlu ei phenblwydd ym mis Mawrth.

Clwb Rygbi Hendygywyn

Canlyniadau Gemau

Ionawr 15fed

Yr Hendy 22 - Hendy Gwyn 15

Sgoriodd Ollie Hughes dau gais i Hendy Gwyn a cafodd Marc Jones y cais arall. Roedd y sgôr yn gyfartal 15 - 15 am gyfnod hir ond llwyddodd yr Hendy i sgorio trosgais dwy funud o'r diwedd. Bu'n gêm galed tu hwnt gyda blaenwyr y ddau dim yn chwarae'n arbennig. Roedd y ddau dîm yn hapus iawn o gael chwarae gêm, wrth i gyfyngiadau Covid gael ei llacio ar y noson gynt.

Ionawr 29ain

Hendy Gwyn - 38 Penclawdd 10

Sgoriodd Marc Jones dau gais i Hendy Gwyn a cafodd James Thomas, Ollie Hughes, Nico Setaro a Gino Setaro gais yr un, mewn buddugoliaeth swmpus yn erbyn Penclawdd. Llwyddodd Geraint Jones gyda pedwar trosiad. Er nad yw Penclawdd wedi ennill yr un gêm hyd yma, cafwyd gêm galed yn ei herbyn, er nad oedd y sgôr terfynol yn adlewyrchu hynny.

Menywod

Ionawr 16eg

Hendy Gwyn 0 - Bonymaen 30

Roedd Hendy Gwyn methu'n lan â sgorio, er gwaetha'r ffaith ei bod wedi treulio bron yr hanner cynta'n gyfan gwbwl ar linell gais Bonymaen. Nid oedd eilyddion gan Hendy Gwyn o gwbwl a gwnaeth hynny ddangos yn yr ail hanner. Wrth i ferched Hendy Gwyn flino, manteisiodd Bonymaen ar hynny, gan sgorio nifer o geisiau yn yr ail hanner a sicrhau buddugoliaeth hawdd yn y diwedd.

Ionawr 23ain

Porth Tywyn 17 - Hendy Gwyn 29

Gêm wych i wyllo - Hendy-gwyn wedi elwa o gael ychydig o chwaraewyr hŷn yn ôl ar y cae ac fe ddangosodd!!

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gael ei dewis yng ngharfan merched dan 18 y Sgarlets (mae'r 8 yn chwarae i dîm merched dan 18 Hendy Gwyn) – Cadi Williams, Isla Craig, Carys Hughes, Izzy Wright, Chelsea Chester, Lowri Pritchard, Caitlin Arran, Holly Rowsell.

parhad o dudalen 28

Kevin Jenkins	51:30	328
Mark Lee	59:18	377

Cyngrair Gwent - Traws Gwlad /Penbre

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 4ydd 2021

Dechreuwyrr-Bechgyn	Amser	Safle
Lewis Thomas-Wigley	06:39	35
Dechreuwyrr-Merched	Amser	Safle
Manon Phillips	06:07	2
Maisie Foster	06:26	12
Gwenno Powell	07:16	41
Angharad Fabillia	07:17	42
Dynion hŷn	Amser	Safle
Luke Evans	36:50	140
Richard Phillips	39:28	203
Stephen Dawson	40:26	221
Simon Scurrrell	43:27	276
Matthew Williams	45:56	307

Merched hŷn	Amser	Safle
Mel Holliday	31:34	68
Lindy Eynon	32:24	83
Mary Anthony	32:51	94
Emma Jones	34:29	135
Emma Jones	34:29	135
Mair Morgan	35:25	151
Kate Lynock	35:26	153
Jayne Evans	41:36	226
Margaret Powell	42:12	230
June Warren-Jones	43:39	246
Morfydd Davie	43:57	249
Bridget Mosele	44:50	253
Ann Rowell	45:10	255
Sonya Jones	48:41	268
Angharad Dew	49:52	271
Pauline Thomas	52:06	276

Clwb Pêl-droed Llanboidy

Er bu ychydig o doriad dros wyl y Nadolig gyda'r canllawiau Covid-19 yn ei le, braf yw gweld y tymor pêl-droed wedi ail ddechrau. Mae dau dîm pêl-droed Llanboidy wedi cael tymor da iawn hyd yn hyn, ac rydym yn edrych ymlaen tuag at weddill y tymor.

Tîm cyntaf



Ifan Phillips - un o'r sgorwyr yn erbyn Cei Newydd

Mae'r tîm cyntaf wedi chwarae pedair gêm ers y Nadolig; gyda Llanboidy yn gyntaf, a Ffostrasol yn ail yn y tabl, roedd

y gêm yma yn argoeli yn gêm dda iawn. Er hyn, colli bu hanes Llanboidy o 3-2 gyda goliau yn dod i Ifan Phillips a Caleb Young. Er hyn, braf oedd medru bownsio nôl yr wythnos ganlynol a churo Cei Newydd o 2-1, diolch i goliau gan Frazer Wyatt ac Ifan Phillips.

Cafwyd gêm y chwarteri yng nghwpan y gynghrair yn erbyn tîm da o Lamed a hynny adref ar Barc Cae Dandre. Y sgôr ar ôl 90 munud oedd 2-2, diolch i goliau gan Iwan Jones a Gethin Scourfield, felly roedd yn rhaid chwarae 30 munud arall o amser ychwanegol. Sgoriodd Lamed yn gynnar yn yr amser yma, ond taro nôl wnaeth Llanboidy, diolch i gôl arall gan Iwan Jones. Gyda'r amser ychwanegol yn dod i ben a'r sgôr yn 3-3, ciciau o'r smotyn oedd i'w ddilyn. Braf oedd gweld 5 cic o'r smotyn llwyddiannus gan Llanboidy, gyda Lamed yn sgorio tair a methu un. Ymlaen i'r rownd gyn derfynol i Llanboidy.

Cafwyd gêm rownd y chwarteri yng nghwpan Goffa Dai Dynamo hefyd i dîm cyntaf y Clwb, a braf oedd ennill y gêm yma eto, yn erbyn tîm cryf Felin-fach. 3-1 oedd y sgôr terfynol gyda goliau Llanboidy yn dod gan Gethin Scourfield, Tomos Rogers a Jac Haley - oedd yn

chwarae ei gêm gyntaf gyda thîm cyntaf y Clwb.

Mae'r tîm cyntaf yn sefyll yn 1af ar ôl 14 gêm, gyda 30 o bwyntiau a hefyd yn rownd gyn derfynol Cwpan y Gynghrair a Chwpan Goffa Dai Dynamo.

Ail Dîm

Ers y Nadolig, tair gêm mae'r ail dîm wedi chwarae, y tair mewn gemau gynghrair. Ennill un a cholli dau yw hanes y tîm. Collwyd erbyn ail dîm Ffostrasol o 1-0 ar ôl gôl ym munudau olaf y gêm ond yr wythnos ganlynol cafwyd canlyniad da iawn gan ennill yn erbyn ail dîm Aberteifi o 4-0, diolch i goliau gan Ifan Jones, Ryan Pearce, Dan Blain a'r capten Chris Bowen.

Collwyd eto o 2-1 yn erbyn ail dîm Llechryd o 2-1 gyda'r unig gôl yn dod gan Dafydd Wright, oedd yn chwarae ei gêm gyntaf o'r tymor. Roedd yn wych i weld Dan Arnold yn chwarae gyda'i feibion Triston, Cameron ac Ashton am y tro cyntaf gyda'r Clwb.

Ar ôl chwarae 10 gêm gynghrair, mae'r ail dîm yn eistedd yn y 3ydd safle a hefyd yn chwarae yng nghwpan "South Cards" yn erbyn Ffostrasol cyn hir.

Diolch yn fawr iawn i holl noddwyr a chefnogwyr y Clwb



Dan Arnold yn chwarae gyda'r ail dîm gyda'i feibion Triston, Cameron ac Ashton am y tro cyntaf.

am y flwyddyn - rydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich cefnogaeth.

Am fwy o wybodaeth am pryd mae'n gemau - ewch ar wefan "Ceredigion League". Bydd croeso cynnes yn aros amdanoch lawr ar gae Cae Dandre pob amser.

CHWARAEON - Clwb Rhedeg TROTS, San Cler

Os ydych wedi gwyllo rasmus megis Marathon Llundain neu Hanner Marathon Caerdydd yna rydych, yn siwr, wedi sylwi ar redwyr yn gwisgo crysau TROTS San Cler. Dyma glwb rhedeg llwyddiannus iawn wedi ei leoli yn San Cler. Sefydlwyd y Clwb – “Taf Running and Orienteering Team” yn 1986 gan Dwyfor Morgan a’i ddiweddar wraig, Evelyn; y brodyr Glyn a Ron Anthony a Dewi Jones ac mae’n mynd o nerth i nerth gyda 137 o aelodau ar y llyfrau ar hyn o bryd.

Dwyfor Morgan, wedi blynyddoedd lawer fel cadeirydd, yw llywydd y Clwb. Mark Lee yw’r cadeirydd presennol, mae e’n hyfforddwr ac yn rhedeg grŵp rhedeg yn Amroth. Mae yna 3 hyfforddwr, Aled Jones Davies yw’r prif hyfforddwr, 2 hyfforddwr cynorthwyol ac 8 neu 9 arweinydd rhedeg sydd yn rhedeg ar y blaen ac yng nghefn grŵp o redwyr i wneud yn siwr fod pawb yn iawn. Mae na Adran Iau i’r clwb hefyd gyda 2 hyfforddwr a 2 cynorthwydd â gofal tua 20 o blant ac ieuencid.

Mae gwahanol adrannau o’r Clwb yn cwrdd ar nos Lun, Mawrth a Mercher ond y prif noson yw Nos Iau. Mae’r aelodau yn medru cystadlu mewn rasmus mawr ond rhaid oedd gwneud Marathon Llundain yn rhithiol y llynedd. Mae marathon Eryri ar y gorwel nawr i lawer. Braf yw cael ail-ddechrau’r Parkrun sy’n Llyn Llech Owain neu Colby a gwelwyd Keith Powell, un o’r arweinwyr, yn sôn am y ‘parkrun’ ar newyddion S4C yn dilyn y cyfnod clo. Hefyd, mae’r aelodau wedi bod yn cystadlu mewn rasys Cynghrair Gwent yng Nghaerdydd ac Aberhonddu. Menter arall gyda’r clwb yw “couch to 5K” i rai sydd eisiau gwella’i ffitrwydd.

Ar Nos Iau gyntaf pob mis cynhelir cyfarfod i’r holl aelodau i’w hysbysu am y digwyddiadau a fynychwyd a sydd i ddod. Hefyd ar yr un nos Iau cynhelir Treial Amser ble gall aelodau redeg 5km o gwmpas San Cler a Phwll Trap. Rydych yn ennill pwyntiau os ydych wedi gwella’ch amser o’r mis blaenorol.

Dyma’r canlyniadau diweddaraf:

Cyngrair Gwent - Traws Gwlad /Aberhonddu Dydd Sul, Tachwedd 14eg 2021

Manon Phillips	04:57	5
Maisie Foster	05:28	21
Merched hŷn	Amser	Safle
Mel Holliday	31:34	70
Mair Morgan	35:07	143
Emma Jones	35:33	152
Kate Lynock	36:20	170



Dynion Gwlad ('Country men')



Merched Gwlad ('Country women')

Does dim rhaid bod yn aelod i redeg yn y sesiynau wythnosol, troi lan a thalu’r £1 / £1.50 am y sesiwn. Ar nos Iau am 6.30 y.h, Clwb Rygbi San Cler yw’r man cyfarfod i’r oedolion a Chanolfan Hamdden San Cler am 6 o’r gloch yw’r man cyfarfod i’r ieuencid. Mae cyfleusterau’r Ganolfan ar gael i bawb. Os am fwy o wybodaeth chwiliwch dudalen gwepllyfr TROTS.

Jayne Evans	42:12	241
Bridget Moseley	44:28	260
Ann Rowell	44:54	266
Angharad Dew	48:20	276
Pauline Thomas	51:40	287
Dynion hŷn	Amser	Safle
Luke Evans	41:32	169
Richard Phillips	43:30	212
Dewi Snelson	46:33	273